

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Adroddiad Blynyddol



2010-
2011

Ionawr 2012

Mae croeso i chi wneud cais am gopi o'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) mewn ffurf neu iaith arall. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu drwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk



ISBN 978 0 7504 6778 0

© Hawlfraint y Goron Ionawr 2012

WG13852

Cynnwys

¹ Rhagair

1

² **Pwy yr ydym ni, yr hyn yr ydym ni'n ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud**

- ² Pwy yr ydym ni
- ² Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud
- ⁴ Ein Gwerthoedd
- ⁵ Sut yr ydym yn ei wneud
- ⁵ Ein Pobl
- ⁶ Cydweithio gydag eraill
- ⁶ Sut yr ydym wedi cynnwys ac ymgysylltu â dinasyddion yng Nghymru
- ⁷ Sut yr ydym wedi gweithio gyda gwasanaethau a staff gofal iechyd
- ⁷ Sut yr ydym wedi gweithio gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill, cyrff proffesiynol ac asiantaethau gwella
- ⁸ Datblygu ein ffyrdd ein hunain o weithio
- ⁹ Sut yr ydym wedi dysgu o adborth a chwynion ynglŷn â'n gwaith
- ¹⁰ Sut yr ydym wedi ymdrin â cheisiadau am wybodaeth

¹⁰ Sut yr ydym wedi gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid

¹⁰ Sut yr ydym wedi gwella ein dulliau cyfathrebu

¹¹ Sut yr ydym wedi rheoli ein hadnoddau

2

¹² **Canolbwyntio ein gwaith ar yr hyn sydd bwysicaf**

- ¹² Pa mor dda yw Iechyd a Lles Pobl Cymru?
- ¹⁵ Darparu Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru: yr hyn a ganfuwyd gennym yn 2010-2011
- ¹⁵ Ein dulliau asesu
- ¹⁶ Sbarduno gofal sy'n canolbwyntio ar anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth - sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn addas i'w diben
- ¹⁸ Rydym wedi rheoleiddio gofal iechyd annibynnol yng Nghymru
- ²⁰ Parhawyd i roi pwyslais ar faterion sylfaenol urddas a pharch
- ²¹ Rydym wedi gweithio i sicrhau y diogelir cleifion a defnyddwyr gwasanaeth a allai fod mewn sefyllfaoedd a fyddai'n peri iddynt fod yn agored i niwed

²⁷ Rydym wedi parhau i sbarduno gwelliant yn yr amgylchedd gofal

²⁸ Cael triniaeth gan staff a chanddynt gymwysterau priodol ac sydd wedi eu hyfforddi'n briodol

³¹ Adolygiadau Arbennig

3

³² **Sbarduno gwelliant trwy ein gwaith**

³² Gwneud Gwahaniaeth

³³ Annog newid trwy ein Cyhoeddiadau

³³ Gwaith dilynol ynglŷn â'n canfyddiadau

³⁴ Dylanwadu ar bolisiâu ac arferion gofal iechyd

³⁵ Mwy o rym ar gyfer newid trwy Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

4

³⁶ **Edrych i'r dyfodol**

³⁷ Ein gwaith yn ystod 2011-12 a thu hwnt

³⁹ **Atodiadau**

³⁹ A Mapiau Gofal Iechyd

⁴⁵ B Rhestr o Gyhoeddiadau

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno seithfed adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Ar ran Gweinidogion Cymru a dinasyddion Cymru, mae AGIC yn darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hybu gwelliannau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn edrych yn ôl ar ein gweithgareddau yn ystod 2010-11, yn ogystal ag edrych ymlaen gan ystyried yr heriau sydd i ddod. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r amgylchiadau ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd wedi parhau i ddatblygu a newid ar draws y DU.

Yn dilyn y diwygiadau i strwythurau'r GIG yn 2009, mae arweinyddion y GIG wedi canolbwyntio ar ddatblygu eu strategaethau a'u cynlluniau hirdymor a sicrhau bod gan eu sefydliadau yr adnoddau i ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy ac o ansawdd uchel ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth 5 mlynedd newydd ar gyfer y GIG yng Nghymru: [Law yn Llaw at Iechyd](#), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011, yn amlinellu'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd a'r camau angenrheidiol ar gyfer sicrhau perfformiad cystal ag unrhyw wasanaeth yn y byd.

Mae angen felly i wasanaethau iechyd barhau i drawsnewid eu dulliau o weithio a gweithio'n effeithiol gyda'u partneriaid statudol a thrydydd sector os ydynt am wireddu'r weledigaeth ar gyfer model newydd o wasanaethau iechyd sydd wedi ei seilio ar wasanaethau cymunedol gyda chleifion yn ganolog iddynt, ac sy'n rhoi ansawdd, tryloywder ac atal salwch wrth wraidd gofal iechyd.

Mae'r sector annibynnol hefyd wedi paratoi ar gyfer newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio gan gyflwyno rheoliadau newydd a safonau cysylltiedig

yng Nghymru ym mis Ebrill 2011. Mae hyn yn dod â heriau penodol i ddarparwyr sy'n gweithredu ar draws ffiniau.


Yn ogystal â newidiadau yn y gwasanaethau iechyd, mae'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn cael eu cynllunio, eu trefnu a'u darparu hefyd yn newid yn gyflym iawn ac mae llawer o fathau newydd o wasanaethau ar y cyd yn cael eu darparu. Mae darparu'r lefel hon o newid yn yr hinsawdd economaidd bresennol yn parhau i fod yn her sylweddol i wasanaethau iechyd yng Nghymru a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.

O ystyried hyn, drwy gydol 2010-2011, ceisiodd AGIC sefydlu dulliau gwell o ddarparu ar gyfer y dyfodol. Roedd cyflwyno strwythur trefniadaethol newydd ym mis Ebrill 2010 yn ein galluogi i ddefnyddio ein staff mewn modd mwy hyblyg ar draws yr ystod o waith yn y GIG ac yn y sectorau gofal iechyd annibynnol; ac roedd datblygu dulliau newydd o weithio yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn gwneud ein gwaith mewn modd cymesur ac effeithlon.

Wrth weithio ar y cyd gyda chyrrff arolygu, archwilio ac adolygu eraill yng Nghymru a thu hwnt, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wneud yn siŵr ein bod yn darparu sicrwydd sy'n gyflenwol ac yn rhoi'r pwyslais ar ddinasyddion o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac, wrth wneud hynny, sicrhau'r effaith fwyaf wrth gefnogi gwelliannau i ansawdd, diogelwch, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Yn bwysicaf oll, rydym yn ddiolchgar iawn i bob un ohonoch sydd wedi rhoi o'ch amser i rannu eich safbwyntiau a'ch profiadau o wasanaethau iechyd gyda ni; mae'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu i ni yn cyfrannu at ein hasesiad gwrthrychol o wasanaethau gofal iechyd.

Peter Hignam



Pwy yr ydym ni, yr hyn yr ydym ni'n ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud

Pwy yr ydym ni:

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw prif reoleiddiwr yr holl ofal iechyd yng Nghymru
- Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru
- Yn broffesiynol, rydym yn annibynnol
- Rydym yn darparu golwg wrthrychol a chadarn ar wasanaethau gofal iechyd sydd, yn eu cyfanrwydd, yn effeithio ar bawb yng Nghymru

Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud:

- Rydym yn arolygu sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn ystod o safonau, polisiau, canllawiau a rheoliadau
- Rydym yn canolbwyntio ar ba mor dda y diogelir y rhai hynny a allai fod mewn sefyllfaoedd sy'n golygu eu bod yn agored i niwed
- Rydym yn nodi pa wasanaethau sy'n gwneud yn dda ac yn amlygu meysydd lle y mae angen gwella gwasanaethau
- Rydym yn ymchwilio pan fo posibilrwydd o fethiannau systemig wrth ddarparu gofal iechyd
- Rydym yn cymryd camau ar unwaith os ydym yn penderfynu nad yw diogelwch ac ansawdd gofal iechyd yn bodloni'r safonau gofynnol
- Rydym yn hysbysu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd am safonau gofal iechyd yng Nghymru
- Rydym yn sbarduno gwelliannau trwy rannu'r hyn a ddysgir



Mae ein cyfrifoldebau'n amrywio'n eang:



Ein Gwerthoedd

Yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, ein gwerthoedd sy'n sefydlu'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer rheoli'r modd o wneud ein gwaith. Cânt eu harddangos yn ymddygiad ein staff i gyd a'r adolygwyr allanol sy'n cyflawni gwaith ar ein rhan.

Dyma'r gwerthoedd hynny:

- Didwylledd
- Gonestrwydd
- Canolbwyntio ar gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion
- Cydweithio, rhannu ein profiadau ymhlith ein gilydd a chyda chyrrff adolygu eraill
- Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chymesuredd ein dulliau a
- Chefnogi ac annog dysgu, datblygiad a gwelliant



Ym mis Ebrill 2010, cyflwynasom ein Cod Moeseg newydd. Mae'n ymgorffori ein gwerthoedd drwy ddiffinio'n eglur y safonau ymddygiad yr ydym yn eu disgwyl gan ein staff a'r holl rai sy'n gwneud gwaith ar ein rhan.

Sut yr ydym yn ei wneud

Ein Pobl

Mae darparu ein rhaglen waith yn llwyddiannus yn dibynnu ar broffesiynoldeb, sgiliau ac ymroddiad ein gweithlu. Mae tua 50 o bobl wedi eu lleoli yn ein swyddfa yng Nghaerffili.

Ar ddechrau'r flwyddyn, ailstrwythurwyd ein sefydliad fel bod ein timau wedi eu trefnu ar sail y swyddogaethau y maent yn eu cyflawni ar draws y sector gofal iechyd annibynnol a'r GIG. Gyda chymorth dull 'rheolaeth matrices', rydym bellach mewn gwell sefyllfa i fod yn hyblyg ac yn ystwyth, gan symud y bobl iawn i'r prosiectau iawn yn gyflym a darparu dysgu i wella sgiliau fel bo'r angen.

I gefnogi ein staff craidd, rydym wedi parhau i weithio gyda'n cronfa o dros 200 o adolygwyr allanol - gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd - sydd wedi eu hyfforddi i'n cynorthwyo i gynnal adolygiadau, ac sy'n dod â chyfoeth o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad cyfredol a phenodol i'n gwaith. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ddechrau adolygu ein defnydd o adolygwyr allanol, gan ystyried ein profiadau hyd yma yn ogystal â dysgu oddi wrth

ddulliau pobl eraill. Rydym ar hyn o bryd yn rhoi sylw i'n hanghenion ar gyfer y dyfodol gan ystyried effaith ein dulliau newydd o weithio, a byddwn yn cyflwyno trefniadau newydd yn ystod 2012. Mae gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â sut yr ydym yn penodi, hyfforddi ac yn gweithio gydag adolygwyr allanol ar gael ar ein gwefan¹.

Yn 2010, adolygwyd a chryfhawyd Bwrdd Cyngori AGIC ymhellach gennym. Fe'i sefydlwyd i ddarparu cyngor allanol annibynnol ar sut yr ydym yn gwneud ein gwaith. Mae ei aelodau bellach yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru; Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr GIG Cymru; ein hadolygwyr cymheiriaid a lleyg; yn ogystal ag arbenigwyr o gyrff y GIG o'r tu allan i Gymru. Cyfarfu ein Bwrdd Cyngori 4 gwaith yn ystod y flwyddyn. Gallwch ganfod mwy am ei waith ar ein gwefan.

¹ www.hiw.org.uk

Cydweithio gydag eraill

Sut yr ydym wedi cynnwys ac ymgysylltu â dinasyddion yng Nghymru

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, eu teuluoedd a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Bu hyn o gymorth i ni ddeall anghenion a dewisiadau pobl, dysgu o'u profiadau o wasanaethau iechyd a hybu didwylledd a thryloywder ynglŷn ag ansawdd gofal iechyd. Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi cynnwys ein dinasyddion drwy:

- Ymgynghori ynglŷn â'n cynlluniau a'n rhaglenni gwaith cyffredinol
- Ceisio safbwyntiau ynglŷn ag agweddau penodol ar ofal iechyd, neu mewn cymunedau ac ardaloedd penodol yng Nghymru
- Gweithio gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, eu teuluoedd a grwpiau cynrychiadol i ddatblygu dulliau newydd o wneud ein gwaith
- Cynnwys aelodau o'r cyhoedd fel 'adolygwyr lleyg'
- Darparu gwybodaeth ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gofal iechyd trwy gyhoeddi ein hadroddiadau. Mae rhestr lawn o'n cyhoeddiadau wedi ei chynnwys yn **Atodiad A**



Yn 2011, cytunwyd gyda Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru i weithio'n agosach gyda'n gilydd i ddatblygu dull cydgysylltiedig o ymgysylltu â dinasyddion ar draws Cymru trwy benodi Rheolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chleifion ar y Cyd. Bydd y swyddogaeth hon yn canolbwyntio ar ddatblygu ymhellach ein dull o gasglu a defnyddio profiadau defnyddwyr gwasanaethau iechyd yn ein gwaith ac ar y rhan yr ydym yn ei chwarae wrth fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd dulliau cyrff y GIG eu hunain o ymgysylltu â'r cyhoedd.

Sut yr ydym wedi gweithio gyda gwasanaethau a staff gofal iechyd

Drwy fynychu ac ymwneud ag amrywiaeth o weithdai, cynadleddau, gweithgorau a gweithgareddau datblygu eraill, gwnaethom barhau i weithio gyda chydweithwyr o bob rhan o'r GIG a'r sector gofal iechyd annibynnol i greu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y gallwn ei wneud gyda'n gilydd i wella gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

Anogwyd sefydliadau gwasanaeth iechyd gennym i 'wneud pethau'n iawn y tro cyntaf' trwy weithio ar y cyd â chydweithwyr o bob rhan o'r GIG a Swyddfa Archwilio Cymru i ddatblygu trefniadau newydd ar gyfer hunanasesu pa mor dda y maent yn gweithredu a pha agweddau y mae angen iddynt eu gwella trwy'r fframwaith [Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru](#).

Parhawyd i benodi staff clinigol sy'n gweithio yn sefydliadau'r GIG yng Nghymru fel aelodau allweddol o'n timau adolygu. Yn ogystal â meithrin hunanwelliant trwy weithgarwch asesu, mae ein dulliau hefyd yn cynorthwyo i rannu dysgu ar draws ffiniau sefydliadol.

Sut yr ydym wedi gweithio gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill, cyrff proffesiynol ac asiantaethau gwella

Ar draws y DU a'r tu hwnt

Trwy ein hymrwymiad parhaus a'n cyfraniad brwd i waith Grŵp y Pum Gwlad yn y DU ac Iwerddon², sef grŵp o reoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol, Fforwm Penaethiaid Arolygiaethau y DU a'r Llwyfan Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwyllo (EPSO)³, rydym wedi parhau i sicrhau bod ein gwaith wedi ei seilio ar ddatblygu arferion arolygu, ymchwilio a rheoleiddio effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a'i fod yn dylanwadu ar hynny hefyd.

Rydym wedi parhau i gysylltu â sefydliadau a rheoleiddwyr gweithwyr iechyd proffesiynol, megis Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru⁴, y Cyngor Meddygol Cyffredinol⁵ a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth⁶, er mwyn manteisio ar eu harbenigedd proffesiynol i'n helpu ni i wneud ein gwaith, ac i gael gwybodaeth am ddatblygiad safonau proffesiynol ac arferion

² Mae grŵp 'Pum Gwlad' y DU o reoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys cynrychiolwyr o Gomisiwn Ansawdd Gofal Lloegr (CQC); Gwella Gofal Iechyd yr Alban (HIS); Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC); Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd Gogledd Iwerddon, ac Awdurdod Ansawdd a Gwybodaeth Iechyd Iwerddon.

³ Sefydlwyd y Llwyfan Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwyllo (EPSO) ym 1996. Rhwydwaith Ewropeaidd ydyw o swyddogion sy'n gyfrifol am oruchwyllo a monitro ansawdd gofal iechyd yn eu gwledydd. Ei nod yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio'n well o ran ansawdd gwaith arolygu, goruchwyllo a monitro.

⁴ Mae Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru yn cyflawni swyddogaeth arweiniol ym meysydd addysg, hyfforddiant ac ailddilysu meddygon, ac mae'n ceisio siarad â llais eglur a sicr ar faterion gofal iechyd cyffredinol er lles cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

⁵ Y Cyngor Meddygol Cyffredinol - corff annibynnol, statudol ar gyfer y DU gyfan sy'n cofrestru a rheoleiddio meddygon sy'n ymarfer yn y DU.

⁶ Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth - corff annibynnol, statudol sy'n cofrestru a rheoleiddio nyrsys a bydwreagedd sy'n ymarfer yn y DU.

clinigol, a dylanwadu arnynt. Yn arbennig, rydym wedi cefnogi datblygiad trefniadau newydd a sefydlwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer ailddilysu pob meddyg yn y DU.

Yng Nghymru

Ym mis Mawrth 2011, ynghyd ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru, cyhoeddwyd papur ar y cyd gennym o'r enw [Datblygu ein gwaith gyda'n gilydd mewn hinsawdd o newid](#)⁷. Roedd y papur hwn yn nodi sut yr oeddem yn ymateb ar y cyd i'r agenda polisi cyhoeddus yng Nghymru ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer datblygu a chyhoeddi ein [Cytundeb Strategol](#)⁸ ym mis Ionawr 2011. Mae'r dogfennau hyn yn darparu fframwaith i'n dulliau o gydweithio ac yn arwain gweithgareddau ein tîm prosiect ar y cyd. Mae'r tîm hwn yn parhau i gefnogi datblygiad cydweithio rhwng ein sefydliadau er mwyn sicrhau dulliau mwy cymesur a chydgyssylltiedig o adolygu a rheoleiddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae mwy o wybodaeth am sut yr ydym yn gweithio gyda'r prif arolygiaethau eraill yng Nghymru ar gael ar ein gwefan newydd ar y cyd: www.arolygucymru.com

Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i weithio gyda'n gilydd i gynnal amrywiaeth o adolygiadau traws-sector ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol yng Nghymru, a oedd yn cynnwys sefydliadau adolygu o bob rhan o'r DU. Roedd hyn yn cynnwys cydadolygiadau o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn; Gwasanaethau Troseddau leuenctid; Camddefnyddio Alcohol a Throseddau gan

leuenctid; ac Atal Troseddau leuenctid. Rydym hefyd wedi cyfrannu at ymchwiliadau a gynhaliwyd gan eraill, er enghraifft y rhai hynny a gynhaliwyd gan yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i farwolaethau mewn Carchardai yng Nghymru, ac wedi cydgysylltu ein gwaith gydag eraill, megis y gwaith monitro a gynhaliwyd gan AGIC ac AGGCC o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

Concordat Cymru⁹

Rydym wedi parhau i gefnogi gwaith Concordat Cymru rhwng sefydliadau sy'n arolygu, rheoleiddio, archwilio a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru trwy hwyluso tri chyfarfod yn canolbwyntio ar gylch gorchwyl, rhannu gwybodaeth a datblygu gwefan y Concordat.

Memoranda Cyd-ddealltwriaeth

Rydym wedi parhau i gydweithio a rhannu gwybodaeth gyda'n sefydliadau partner yn unol â'r fframwaith a sefydlwyd yn ein Memoranda Cyd-ddealltwriaeth. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi datblygu a chyflwyno cytundeb newydd gyda'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned ac wedi dechrau gweithio ar ddatblygu cytundebau newydd gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae copïau o'r holl Femoranda ar gael ar ein gwefan¹⁰.

Datblygu ein ffyrdd ein hunain o weithio

Rydym wedi parhau â'n rhaglen gynhwysfawr o ddatblygu sefydliadol a luniwyd i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio. Diben y rhaglen

⁷ Datblygu ein gwaith gyda'n gilydd mewn hinsawdd o newid. Cyhoeddwyd y papur hwn ym mis Mawrth 2011 ac mae ar gael yn www.arolygucymru.com

⁸ Cydweithio er mwyn Cefnogi Gwelliannau. Cytundeb Strategol rhwng AGIC, AGGCC, Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru. Cyhoeddwyd y ddogfen hon ym mis Ionawr 2011 ac mae ar gael yn www.arolygucymru.com

⁹ Cytundeb gwirfoddol yw Concordat Cymru rhwng sefydliadau gwella, arolygu ac adolygu allanol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru www.walesconcordat.org.uk

¹⁰ www.hiwi.org.uk

barhaus hon yw gwella ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd cyffredinol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn cryfhau ein prosesau cynllunio a darparu, ac wrth wneud hynny, rydym wedi parhau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau arolygu ac adolygu eraill fel ein bod yn gallu dysgu o ddulliau ein gilydd.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd trefniadau newydd gennym i gryfhau'r ffordd yr ydym yn cynllunio, cydgysylltu a rheoli ein rhaglen waith yn ystod y flwyddyn; gwella'r ffordd yr ydym yn trin a rhannu gwybodaeth am wasanaethau iechyd yng Nghymru; datblygu ein staff ymhellach trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant sefydlu a dysgu a datblygu parhaus; a gwella ein 'pecyn cymorth' o ddulliau ar gyfer cynnal ein gwaith adolygu.

Sut yr ydym wedi dysgu o adborth a chwynion ynglŷn â'n gwaith

Er ein bod yn ceisio bod yn Arolygiaeth sy'n dangos esiampl i eraill, rydym yn cydnabod nad ydym yn llwyddo bob amser. Yn ogystal â gwella ein ffyrdd o weithio trwy ddysgu o'n profiadau ein hunain, rydym yn cymryd camau pendant i adolygu ac ymateb i'r holl adborth a dderbyniwn ynglŷn â sut yr ydym yn cynnal ein gwaith er mwyn i ni allu:

- cydnabod cyfraniad ein staff at gyflawni safonau uchel o wasanaeth i gwsmeriaid
- monitro'r math o broblemau y mae pobl yn eu profi gyda'r ffordd yr ydym yn gweithio
- penderfynu ar y ffordd orau o ddatrys y problemau
- ystyried pa mor hir y mae'n ei gymryd i ni ymdrin â'r materion a godir

Rydym yn ymchwilio i gwynion ynglŷn ag AGIC trwy ddilyn Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion¹¹.

Derbyniwyd dwy gŵyn gennym ynglŷn â'n gwaith ein hunain yn ystod y flwyddyn. Roedd un yn ymwneud â'n ffordd o ymdrin â chyfarfod ac roedd y llall yn ymwneud â'n ffordd o ymdrin â chŵyn a gawsom am weithredoedd darparwr gwasanaeth iechyd. Yn ystod y flwyddyn, ymchwiliodd Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, i gŵyn am weithredoedd AGIC, AGGCC a Llywodraeth Cymru hefyd. Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd yn 2011¹², cadarnhaodd yr Ombwdsmon y rhan fwyaf o'r agweddau ar y cwynion yn erbyn AGIC a chŵyn yn erbyn Llywodraeth Cymru, ond ni chadarnhaodd y gŵyn yn erbyn AGGCC.

O ganlyniad i'n hymchwiliadau mewnol ein hunain ac ymchwiliad yr Ombwdsmon, gwnaethom nifer o welliannau i'n ffyrdd o weithio. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno trefniadau diwygiedig ar gyfer ymdrin â chwynion ynglŷn ag AGIC a sut yr ydym ninnau'n ymateb i bryderon a chwynion a dderbynnir am wasanaethau gofal iechyd. Disgrifir ein trefniadau mwy cadarn mewn dau lyfryn newydd.



¹¹ Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion ar gael o unrhyw un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru neu drwy fynd i www.cymru.gov.uk neu www.hiw.org.uk

¹² A report by the Public Services Ombudsman for Wales. The investigation of a complaint by Mr & Mrs A against Healthcare Inspectorate Wales, the Care and Social Services Inspectorate for Wales, and the Welsh Assembly Government. Case Ref: 2485/200901222. Mae'r adroddiad ar gael yn www.hiw.org.uk neu www.ombudsman-wales.org.uk

Sut yr ydym wedi ymdrin â cheisiadau am wybodaeth

Un o'n swyddogaethau allweddol fel darparwr sicrwydd cyhoeddus yw hysbysu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd am safonau gofal iechyd yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd gennym am wasanaethau iechyd ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan a thrwy ein dogfennau cyhoeddedig.

Rydym hefyd yn ymateb i geisiadau penodol am ryddhau gwybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd. Wrth wneud hynny, rydym yn dilyn Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth¹³ a darpariaethau'r deddfau perthnasol, gan gynnwys y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, sydd ill dau yn rhoi'r hawl i unigolion gael gweld gwybodaeth gofnodedig swyddogol a gedwir gennym. Mae'r Ddeddf Diogelu Data hefyd yn rhoi'r hawl i unigolion gael gweld unrhyw wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanynt.

Yn ystod 2010/11, derbyniodd AGIC dri chais am wybodaeth, ac ystyriwyd ac ymatebwyd i bob un ohonynt o fewn yr amserlenni a bennwyd.

Sut yr ydym wedi gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid

Rydym yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o safon ragorol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi llunio a dechrau cyflwyno rhaglen benodol o hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer ein staff. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i ni weithio gyda'r staff i adolygu'r trefniadau sydd eisoes wedi eu sefydlu gennym ar gyfer ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau am gyngor a gwybodaeth gan y cyhoedd ac eraill. O ganlyniad i'r gwaith

hwn rydym yn ymgynghori ar gyfres newydd arfaethedig o safonau gwasanaeth i gwsmeriaid. Gallwch weld y rhain ar ein gwefan.

Sut yr ydym wedi gwella ein dulliau cyfathrebu

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi datblygu Strategaeth a Chynllun Cyfathrebu newydd. Yn rhan o'r strategaeth hon, rydym wedi adolygu a gwneud rhai gwelliannau i'n gwefan megis diweddarau adrannau, defnyddio iaith fwy eglur ac ychwanegu eitemau newyddion yn fwy rheolaidd. Yn ystod y flwyddyn, ymwelwyd â hafan¹⁴ ein gwefan 386,257 o weithiau yn Saesneg a 2,194 o weithiau yn Gymraeg, ac mae'n amlwg yn ffynhonnell allweddol ar gyfer cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith. O ystyried hyn, rydym wedi penderfynu cynllunio gwefan newydd a fydd yn helpu'r cyhoedd i gael y wybodaeth y mae arnynt ei hangen, pan fo arnynt ei hangen, yn gyflymach ac yn rhwyddach. Byddwn yn lansio ein gwefan newydd yn gynnar yn 2012.

Rydym hefyd wedi cyflwyno cylchlythyr newydd a gyhoeddir bob tri mis. Diben y cylchlythyr yw sicrhau bod y cyhoedd ac eraill yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith. Rydym yn dosbarthu ein cylchlythyr i fwy na 500 o danysgrifwyr fel mater o drefn, yn ogystal â'i gyhoeddi ar ein gwefan.



¹³ Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Cyhoeddwyd y ddogfen yn 2007 ac mae ar gael hefyd yn www.cymru.gov.uk

¹⁴ www.hiwi.org.uk

Os hoffech danysgrifio, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar y tu mewn i glawr yr adroddiad hwn.

Sut yr ydym wedi rheoli ein hadnoddau

Lluniwyd ein rhaglen gynhwysfawr o ddatblygu sefydliadol i wella ein heffeithlonrwydd trwy ein ffyrdd newydd o weithio, ac i wireddu manteision cydweithio fel y gallwn wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau cyfunol a lleihau cymaint â phosib ar unrhyw faich diangen ar sefydliadau gwasanaeth iechyd. Mae ein dulliau o weithio wedi ein helpu i gyfrannu at fenter 'Llwyddo â Llai' Llywodraeth Cymru ac wedi helpu i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y gyllideb a ddyrannwyd i ni.





Canolbwyntio ein gwaith ar yr hyn sydd bwysicaf

Pa mor dda yw Iechyd a Lles Pobl Cymru?

Yn ôl y Prif Swyddog Meddygol¹⁵, mae iechyd poblogaeth Cymru yn parhau i wella. Mae disgwyliad oes pobl yn hirach, gyda llai o farwolaethau cynamserol (dan 65 oed) o ganlyniad i ganser a chlefydau cylchrediad y gwaed. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol yn parhau o ran iechyd mewn gwahanol grwpiau cymdeithasol ac ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, ac nid yw'r sefyllfa'n gwella mor gyflym ag a welir yn y rhannau o'r Deyrnas Unedig ac Ewrop sy'n perfformio orau. Mae'r Prif Swyddog Meddygol o'r farn mai'r her allweddol yng Nghymru yw lleihau anghydraddoldeb ac ymdrechu i sicrhau canlyniadau tecach i bawb.

¹⁵ Prif Swyddog Meddygol Cymru, Adroddiad Blynyddol 2010. Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2011.



Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd yn 2010, mae'r Prif Swyddog Meddygol yn amlygu nifer o faterion allweddol, gan gynnwys:

- **Bu gostyngiad yn nifer y dynion a menywod o bob oedran a fu farw oherwydd cancer.**

Ein Camau Gweithredu: Mae cancer yn parhau i fod yn her sylweddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar wasanaethau cancer trwy ein gwaith gyda Grŵp Cydgysylltu Gwasanaethau Cancer Cymru er mwyn datblygu dull o adolygu cydymffurfiaid â Safonau Cancer Llywodraeth Cymru trwy raglen newydd o Adolygu gan Gymheiriaid. Mae ein rhaglen tair blynedd ar gyfer 2011-2014 hefyd yn amlinellu ein cynlluniau i adolygu llwybrau atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau cancer; gan ganolbwyntio'n arbennig ar swyddogaeth meddygon teulu o ran canfod ac atgyfeirio'n gynnar.

- **Llwyddwyd i leihau marwolaethau o glefydau cylchrediad y gwaed nid yn unig trwy driniaeth effeithiol, ond hefyd trwy newidiadau megis lleihau lefelau ysmegu a mynediad at well safonau byw a maeth.**

Ein Camau Gweithredu: Wrth i'r GIG symud ei bwyslais tuag at hybu iechyd a lles ac atal salwch, byddwn ninnau'n gwneud hynny hefyd gydag agweddau ar ein gwaith ein hunain; er enghraifft, bydd ein rhaglen newydd o adolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol yn ystyried yr agweddau hyn fel mater o drefn.

- Un o'r clefydau anhrosglwyddadwy cudd yw iselder a lles meddyliol gwael. Mae cywilydd yn dal i fod yn gysylltiedig â hyn ac mae llawer o bobl yn dewis peidio â'i drafod gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, eu ffrindiau na'u teuluoedd.

- Mae iechyd y rhai sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac sy'n byw yng Nghymru yn fater o bwys i'r cyhoedd. Mae gan gyn-filwyr â chyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog yr hawl i gael triniaeth a gofal blaenoriaethol gan y GIG.

Ein Camau Gweithredu: Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir o'r gwaith a wneir gennym, gan gynnwys y wybodaeth a ddarperir gan ein Gwasanaeth Adolygu Iechyd Meddwl, i fonitro gwasanaethau yn y maes hwn, ac yn arbennig i adrodd ar effeithiolrwydd y berthynas rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau meddygol.

Ein Camau Gweithredu: Rydym yn parhau i gefnogi Grŵp Arbenigol y Gweinidog ar Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ac yn 2011 byddwn yn cynnal adolygiad i gasglu gwybodaeth am brofiadau personél y Lluoedd Arfog, eu teuluoedd a chyn-filwyr wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir gennym i helpu i ddatblygu a dylanwadu ar ofynion ansawdd penodol ac i wella ein prosesau asesu ac adrodd ein hunain fel ein bod yn cynnal pwyslais parhaus ar y maes hwn.

Mae'r broses o ddatblygu ein rhaglen waith a'n penderfyniadau ar yr hyn y dylem edrych arno, pryd a sut, yn rhoi sylw i waith y Prif Swyddog Meddygol ac eraill, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ystyriaethau, megis:

- Y ffaith fod natur rhai gwasanaethau yn golygu bod risgiau bob amser yn gysylltiedig â hwy, naill ai oherwydd bod y grŵp cleientiaid yn agored i niwed o bosibl neu oherwydd natur gymhleth y gwasanaeth
- Bod ein proffil risg ar gyfer gwasanaeth neu sefydliad penodol wedi nodi meysydd neu dueddiadau sy'n peri pryder, efallai o ganlyniad i bryderon neu gwynion a dderbyniwyd
- Bod y canlyniadau o'n gwaith blaenorol wedi nodi meysydd lle y mae angen mwy o waith
- Gwybodaeth a dderbyniwyd gan sefydliadau eraill, neu ganlyniadau gwaith adolygu arall
- Efallai bod y gwasanaeth neu'r mater yn flaenoriaeth genedlaethol gydnabyddedig ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd
- Efallai bod safonau neu ofynion ansawdd newydd y gellid eu defnyddio i asesu'r gwasanaeth a ddarperir er mwyn nodi gwelliannau
- Efallai bod anghydraddoldeb cydnabyddedig o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd, neu efallai yr effeithiwyd ar gyfran uchel o'r boblogaeth
- Efallai bod data am berfformiad wedi nodi amrywiadau o ran ansawdd neu feysydd lle y ceir risg sylweddol sy'n effeithio ar rannau penodol o'r gymuned neu ardaloedd penodol yng Nghymru


- Efallai bod pryder sylweddol neu gynyddol ymhlith y cyhoedd
- Efallai bod ein gwaith wedi bod yn fwy effeithiol trwy gydweithio â sefydliadau arolygu, archwilio neu adolygu eraill

Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan am ein holl waith adolygu, gan gynnwys cylch gorchwyl adolygiadau unigol, yn ogystal â gwybodaeth gefndir a chanllawiau ar sut i gyfrannu eich safbwyntiau.

Darparu Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru: yr hyn a ganfuwyd gennym yn 2010-2011

Ein dulliau asesu

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu a defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i'n galluogi i asesu'n effeithiol ansawdd a diogelwch y gofal iechyd a ddarperir. Wrth wneud hynny, rydym wedi ceisio sicrhau bod ein holl waith wedi'i seilio ar hawliau dynol a bod ystyriaeth o faterion cydraddoldeb wedi'i hymsefydlu yn ein dulliau a thechnegau arolygu ac ymchwilio.



Roedd ein rhaglen waith ar gyfer 2010-2011 yn cynnwys:

- Parhau â'n gwaith rheoleiddio, arolygu a sicrwydd arferol, a gynlluniwyd i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a blaenoriaethau eraill
- Parhau i wneud cynnydd mewn nifer o asesiadau Cymru gyfan yn ymwneud â meysydd o ddiddordeb arbennig
- Hysbysu a dylanwadu ar bolisi ac arferion gofal iechyd trwy ein cyfraniad at feysydd allweddol o ddatblygiad
- Gwneud gwaith dilynol ynglŷn ag adolygiadau ac arolygiadau blaenorol.

Sbarduno gofal sy'n canolbwyntio ar anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth - sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn addas i'w diben

Yn ystod y flwyddyn, cadwyd pwyslais allweddol ar sicrhau bod sefydliadau gwasanaeth iechyd yn 'addas i'w diben', hynny yw, eu bod yn cael eu llywodraethu'n effeithiol a bod ganddynt ddigon o adnoddau i ddarparu'r gwasanaethau iechyd y maent yn gyfrifol amdanynt:

Ystyriwyd pa mor dda y mae sefydliadau gwasanaethau iechyd yn perfformio yn erbyn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Mae'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru¹⁶ yn gosod fframwaith cyffredin Llywodraeth Cymru o safonau ar gyfer cynorthwyo gwasanaethau iechyd i ddarparu gwasanaethau diogel, effeithiol, prydlon

ac o ansawdd uchel ym mhob lleoliad.

Mae'r Hunanasesiad o'i gymharu â'r safonau yn ddull allweddol ar gyfer sicrhau bod sefydliadau gwasanaeth iechyd yn addas i'w diben.

Mae'n amlygu'r cynnydd a wnaed ganddynt, yn nodi eu harferion gwaith sy'n werth eu rhannu ag eraill, ac yn rhoi blaenoriaeth i feysydd i'w gwella a'u datblygu ymhellach.

Mae'r holl waith a wneir gennym trwy'r flwyddyn yn cynorthwyo i gyfrannu at ein hasesiad o ba mor dda y mae sefydliadau yn perfformio yn erbyn y Safonau.

Rydym wedi hwyluso'r broses o gyflwyno dull newydd o hunanasesu

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd AGIC i annog sefydliadau gofal iechyd i hunanasesu eu perfformiad eu hunain yn fwy effeithiol, yn ogystal ag atgyfnerthu ymhellach eu proses o graffu mewnol, er mwyn iddynt fod mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau diogel ac o ansawdd da. Hwyluswyd y datblygiad o ddull newydd o hunanasesu'r Safonau trwy weithio gyda chydweithwyr o'r GIG yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu eraill, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

Cynllun 'modiwlwr' sydd i'r dull newydd o hunanasesu. Yn 2010/11, cynhaliodd sefydliadau'r GIG eu hasesiad cyntaf ar lefel gorfforaethol o'u perfformiad yn erbyn y Safonau trwy ddefnyddio'r modiwl hunanasesu 'Llywodraethu ac Atebolrwydd'. Roedd y modiwl yn darparu fframwaith i arweinyddion gwasanaethau iechyd allu ystyried a dangos i eraill pa mor dda yr oeddent yn llywodraethu eu sefydliad. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y fframwaith yn darparu pwyslais eglur i sefydliadau allu nodi a rhoi blaenoriaeth i feysydd y mae angen eu datblygu a'u gwella ymhellach. Nododd pob sefydliad eu canfyddiadau fel elfen allweddol o'u 'Datganiad Rheolaeth Fewnol'¹⁷ ar gyfer 2010/2011.

¹⁶ Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2010.

¹⁷ Mae'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn ddogfen atebolrwydd cyhoeddus sy'n disgrifio effeithiolrwydd dulliau rheoli mewnol mewn sefydliad, ac fe'i llofnodir yn bersonol gan y Swyddog Atebolrwydd.

Mae'r Safonau'n sail i'n holl weithgarwch, ac rydym yn defnyddio canlyniadau ein rhaglen waith gyffredinol yn ystod y flwyddyn i gyfrannu at ein hasesiad o sefydliadau gwasanaeth iechyd unigol.

Themâu allweddol sy'n deillio o'r asesiad o'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd

Ar y cyfan, roedd hunanasesiad cyntaf sefydliadau'r GIG o'u perfformiad yn erbyn y Safonau newydd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yn dangos lefel dda o hunanymwybyddiaeth o'u cryfderau, a phwyslais eglur ar y meysydd y mae angen iddynt eu datblygu a'u gwella ymhellach. Nid yw'n syndod fod y rhan fwyaf o'r meysydd y nodwyd bod angen eu datblygu ymhellach yn ymwneud â'r angen i ymsefydlu trefniadau corfforaethol ymhellach yn dilyn y gwaith ailstrwythuro a wnaed yn hwyr yn 2009 yn ogystal â ffurfio'r Byrddau Iechyd newydd.

Mae'r themâu allweddol a gododd o'r gwaith a wnaed gennym trwy gydol y flwyddyn yn adlewyrchu i raddau helaeth y meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd gan y sefydliadau eu hunain o ran eu harweinyddiaeth a'u dull o lywodraethu cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i Fyrdau'r GIG wneud y canlynol:

- Parhau i weithio'n agos gyda staff y gwasanaeth iechyd, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol cyffredinol a osodwyd ganddynt, a chreu gwell ymrwymiad i hynny
- Datblygu ymhellach y ffordd y maent yn cydweithio gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ar draws eu cymunedau, er mwyn gallu cyfrannu at gynllunio gwasanaethau iechyd a'r modd y cânt eu darparu
- Sicrhau bod y ffordd y maent yn trefnu eu swyddogaethau yn fwy eglur a syml, er mwyn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am gadw llygad ar berfformiad, allu gwneud hynny'n rhwydd ac yn effeithiol

- Gwella eu dulliau cyfathrebu a'u ffyrdd o weithio, er mwyn i wahanol adrannau eu sefydliad allu gweithio'n dda gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd
- Sicrhau bod arweinyddion, rheolwyr a staff clinigol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i sbarduno eu sefydliadau i'r un cyfeiriad
- Parhau i ganolbwyntio ar gryfhau nifer a gallu'r gweithlu yn ogystal â'r defnydd ohonynt, er mwyn iddynt fod mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd da wrth iddynt symud eu cyfeiriad cyffredinol tuag at ddarparu'r weledigaeth strategol ar gyfer y GIG yng Nghymru
- Ymsefydlu ymhellach eu systemau mewnol ar gyfer nodi a mynd i'r afael â ffactorau a allai beryglu eu gallu i gyflawni eu hamcanion
- Parhau i wella eu trefniadau ar gyfer trin gwybodaeth a chofnodion, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sydd ei hangen ar arweinyddion, rheolwyr a staff rheng flaen ar gael iddynt pan fo ei hangen arnynt i allu gwneud eu gwaith yn effeithiol
- Cryfhau ymhellach y trefniadau ar gyfer craffu a sicrhau ansawdd mewnol, er mwyn iddynt fod mewn gwell sefyllfa i asesu eu perfformiad sefydliadol cyffredinol, ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i feysydd pryder, a sbarduno gwelliant cyffredinol
- Datblygu eu trefniadau presennol ar gyfer rhannu arferion da o fewn sefydliadau a thu hwnt, a sicrhau bod dysgu sefydliadol ehangach yn digwydd mewn ymateb i bryderon a chwynion
- Parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n cynnal diogelwch ac urddas cleifion, hyd yn oed yn y rhannau hŷn o ystâd y GIG yng Nghymru

Rhoddwyd ystyriaeth i'r themâu uchod wrth ddatblygu rhaglen waith AGIC ar gyfer 2011-2014, ac mae ein blaenoriaethau canlyniadol ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ein galluogi i sicrhau bod y materion hyn yn destun adolygiad parhaus.

Yn arbennig, mae rhaglen Uwchgynadleddau Gofal Iechyd 2011, y cyfeirir ati ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn, wedi rhoi cyfle i ni, trwy weithio ochr yn ochr â chyrrff arolygu, archwilio, adolygu a gwella eraill, ystyried faint

o gynnydd y mae sefydliadau yn ei wneud o ran mynd i'r afael â'r materion hyn. Byddwn yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith hwn i sefydliadau yn fuan yn 2012.

Rydym wedi rheoleiddio'r sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru

Trwy gofrestru ac arolygu, parhawyd i reoleiddio'r sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Rheoliadau cysylltiedig.

Tabl 1: Tabl o Leoliadau Cofrestredig Gofal Iechyd Annibynnol 2009-11

Y math o leoliad	Nifer y darparwyr cofrestredig ar 31 Mawrth 2009	Nifer y darparwyr cofrestredig ar 31 Mawrth 2010	Nifer y darparwyr cofrestredig ar 31 Mawrth 2011
Ysbytai aciwt	7	12	17
Ysbytai iechyd meddwl	22	24	24
Ysbyty dadwenwyno	1	1	1
Ysbytai deintyddol sy'n defnyddio anesthesia	3	3	3
Hosbisau i oedolion	5	5	6
Hosbisau i blant	2	2	2
Laserau Dosbarth 3B a 4 / Golau Pwls Dwys	39	43	45
Siambrau ocsigen hyperbarig	5	4	4
Meddygon teulu annibynnol	1	1	1
Clinigau annibynnol	9	8	8
Deintyddion preifat	1	1012	1208
CYFANSWM	95	1115	1319

Yn ystod y flwyddyn, cofrestrwyd 8 o ddarparwyr newydd, datgofrestrwyd 15 o ddarparwyr, ac ymdriniwyd â 6 amrywiad i gofrestriad. Mae hon yn sefyllfa lawer mwy sefydlog, o'i chymharu â dwy flynedd yn ôl, pan fu mwy na 1,000 o gynnydd yn nifer ein cofrestriadau yn sgil cyflwyno system gofrestru ar gyfer deintyddion preifat. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym hefyd wedi gweld nifer yr ysbytai aciwt¹⁸ a gofrestrwyd wedi mwy na dyblu - o 7 yn 2009, i 17 ym mis Mawrth 2011.

¹⁸ Mae'r categori Ysbyty Acíwt yn cynnwys Ysbyty Acíwt, Ysbyty Deintyddol, Ysbyty Llawdriniaeth Gosmetig, Hosbis, Clinig Ffrwythloni In Vitro, Ysbyty nad yw'n rhoi Triniaeth Acíwt, Ysbyty Terfynu Beichiogrwydd.

Arolygiadau

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 53 o ymweliadau arolygu gennym â lleoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (ac eithrio deintyddion). Cynhaliwyd yr arolygiadau hyn yn erbyn y gofynion a nodir yn y rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru¹⁹. Wrth asesu pa un a yw lleoliad cofrestredig yn bodloni gofyniad rheoliadol penodol ai peidio, rydym yn ystyried pa un a yw'n bodloni pob un o'r safonau cysylltiedig, perthnasol.

Tabl 2: Tabl o'r Arolygiadau Gofal Iechyd Annibynnol a gynhaliwyd yn ystod 2010-2011

Y math o leoliad	Nifer yr arolygiadau
Hyperbarig	3
Ysbytai Deintyddol	1
Acíwt	6
Clinig Annibynnol	4
Iechyd Meddwl	19
Laser / Golau Pwls Dwys	20
CYFANSWM	53

Mae adroddiadau o'n canfyddiadau ar gyfer pob un o'r arolygiadau hyn ar gael ar ein gwefan.

Ar y cyfan, canfuwyd bod y sefydliadau a arolygwyd gennym wedi bodloni'r rhan fwyaf o'r safonau. Fodd bynnag, nodwyd hefyd nifer o themâu cyffredin a ddeilliodd o'n hymweliadau:

- Mewn 40% o'r arolygiadau, canfuwyd y dylai'r sefydliad fod wedi darparu gwell gwybodaeth i gleifion
- Mewn 79% o'r arolygiadau o Ysbytai Iechyd Meddwl, canfuwyd problemau ynglŷn â chynllunio gofal, gan fod llawer o leoliadau heb gofnodi pa un a oedd barn y cleifion wedi ei hystyried

- Canfuwyd na ddarparwyd digon o hyfforddiant priodol i'r staff ar Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed mewn 37% o'r ysbytai Iechyd Meddwl a arolygwyd, ac mewn 50% o'r ysbytai Acíwt
- Mewn tri o'r pedwar arolygiad o Glinigau Annibynnol, amlygwyd materion gennym yn ymwneud â chadw a chofnodi meddyginiaethau, a chanfuwyd problemau tebyg mewn dau o'r chwe ysbyty Acíwt a arolygwyd

Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y canfyddiadau hyn yn ystod 2011-2012.

¹⁹Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru - Datganiad o'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n berthnasol i ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol a wnaed gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ran Llywodraeth Cymru o dan bwerau a gyflwynwyd gan adran 23(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Diwygiwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ym mis Ebrill 2011. Mae'r Safonau cyfredol ar gael i'w gweld yn www.hiwi.org.uk.

Y Gwasanaeth Atgyfeirio Deintyddol, sef y sefydliad sy'n arolygu gwasanaeth deintyddol y GIG yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynnal arolygiadau o ddeintyddion ar ein rhan. Mae'r Gwasanaeth Atgyfeirio Deintyddol yn monitro ansawdd gofal deintyddol yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n gwneud argymhellion ynglŷn â hyn trwy ddefnyddio system fonitro wedi ei seilio ar risg, a thrwy ymweliadau â phractisau. Mae perthynas AGIC â'r Gwasanaeth Atgyfeirio Deintyddol, o ran arolygu deintyddion preifat yng Nghymru, yn cael ei diffinio yng nghyd-destun trefniant cytundebol ffurfiol.

Adolygu hysbysiadau o ddigwyddiadau a allai effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch cleifion

Fel gyda sefydliadau'r GIG, rydym yn monitro darparwyr gofal iechyd annibynnol trwy gydol y flwyddyn, gan ystyried y wybodaeth a gawsom o amrywiaeth o ffynonellau. Roedd hyn yn cynnwys canfyddiadau ein harolygiadau ein hunain, a hunanasesiadau a gynhaliwyd gan y darparwyr eu hunain, yn ogystal â'r wybodaeth werthfawr a gawsom gan gleifion, perthnasau a gofalwyr am eu profiad hwy o wasanaethau iechyd.

Roedd ein hadolygiad o ddigwyddiadau yr hysbyswyd ni amdanynt trwy gydol y flwyddyn yn un o elfennau allweddol ein gweithgarwch monitro parhaus. Mae'n rhaid i unigolion cofrestredig²⁰ ein hysbysu'n ffurfiol am amrywiaeth o ddigwyddiadau penodol a allai effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch cleifion²¹.

Yn ystod y flwyddyn, fe'n hysbyswyd am 102 o ddigwyddiadau a 697 o farwolaethau. Ym mhob achos, adolygwyd y wybodaeth a ddarparwyd, a phan oeddem yn ystyried bod angen, cymerwyd camau dilynol pellach i sicrhau bod ymateb y sefydliad i'r digwyddiad unigol yn briodol.

Parhawyd i roi pwyslais ar faterion sylfaenol urddas a pharch

Yn 2009 ac yn gynnar yn 2010, cynhaliodd AGIC nifer o ymweliadau ar hap i archwilio 'Urddas a Pharch' mewn wardiau ac adrannau ysbytai ar draws Cymru a oedd yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn a chanddynt gyflwr iechyd meddwl.

Yn ystod 2010-11, derbyniodd ac adolygodd AGIC y cynlluniau gweithredu a gyflwynwyd gan yr holl leoliadau gofal iechyd a fu'n destun ymweliad archwiliad ar hap. Cyhoeddwyd yr holl gynlluniau gweithredu ar ein gwefan. Rhannwyd canfyddiadau ein gwaith yn y maes hwn gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru²², er mwyn cyfrannu at ei hadroddiad [Gofal gydag Urddas?](#)²³, a defnyddiwyd y canfyddiadau hefyd i gyfrannu at ein hadolygiad ar y cyd ag AGGCC ['Heneiddio fel y mynnaf'](#): Adolygiad o Effaith y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru²⁴.

²⁰ Unigolyn sy'n ddarparwr cofrestredig (unigolyn sy'n rhedeg gwasanaeth ar ei ben ei hun) neu reolwr cofrestredig sefydliad neu asiantaeth.

²¹ Roedd Rheoliad 27 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 yn darparu ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau a allai effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch cleifion. Daeth Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 newydd i rym ar 5 Ebrill 2011. Roeddent yn disodli rheoliadau 2002, ac adnabyddir hysbysiadau rheoliad 27 bellach fel hysbysiadau rheoliad 30/31. Ceir mwy o wybodaeth am y gofynion a osodir ar ddarparwyr a rheolwyr cofrestredig gofal iechyd annibynnol yn y cyswllt hwn yn www.hiwi.org.uk

²² Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ffynhonnell gwybodaeth, eiriolaeth a chymorth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a'u cynrychiolwyr.

²³ «Gofal gydag Urddas? Cyhoeddwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ym mis Mawrth 2011. www.olderpeoplewales.com

²⁴ Heneiddio fel y mynnaf: Adolygiad o Effaith y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru: adroddiad ar y cyd a gyhoeddwyd gan AGGCC ac AGIC, Ionawr 2012.

Mae ein canfyddiadau o'r gwaith hwn, ynghyd â'r gwaith a wnaed gan nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Cymdeithas y Cleifion²⁵, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn dangos bod llawer o faterion yn parhau i effeithio ar bobl hŷn pan eu bod yn yr ysbyty. Mae hyn yn cynnwys pryderon ynglŷn ag ansawdd amgylchedd cleifion; agwedd ac ymddygiad y staff; cynllunio a darparu gofal; hylifau a maeth; gofal a hylendid personol; rheoli meddyginiaeth a phoen; gweithgareddau ac ysgogiad; cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion, a rheoli cleifion sy'n dioddef dryswch meddwl.

O ganlyniad, rydym wedi adolygu ac ehangu ein dull gwreiddiol o archwilio ar hap, er mwyn sicrhau y ceir pwyslais cryf ar y meysydd sy'n peri pryder parhaus. Cychwynnodd ein rhaglen newydd o archwiliadau ar hap ym maes [Urddas a Gofal Hanfodol](#)²⁶ ym mis Rhagfyr 2011, ac mae'n cynnwys ymweliadau dirybudd â lleoliadau gofal iechyd yn gynnar yn y bore, gyda'r nos ac yn ystod y nos.

Rydym wedi gweithio i sicrhau y diogelir cleifion a defnyddwyr gwasanaeth a allai fod mewn sefyllfaoedd a fyddai'n peri iddynt fod yn agored i niwed

Rydym yn cydnabod y gallai unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd fod yn agored i niwed, ac rydym yn sicrhau bod ein rhaglenni gwaith arferol, ein dulliau arolygu a'n harferion gwaith yn canolbwyntio ar y graddau y mae sefydliadau gwasanaeth iechyd yn darparu

cymorth priodol i unigolion yn ystod y cyfnod y maent yn ymwneud â'r gwasanaeth. Yn ogystal, rydym yn darparu nifer o raglenni allweddol sy'n canolbwyntio ar sicrhau y diogelir lles a hawliau dynol unigolion o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth penodol.

Trosglwyddwyd y swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan Gomisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl i ni yn 2009. Roedd y cyfrifoldebau newydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu pwyslais mwy eglur ar y gwasanaethau dan sylw trwy fonitro cydymffurfiaid â'r Ddeddf Iechyd Meddwl²⁷ a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid²⁸ (rhan o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol)²⁹ yn barhaus.

Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith ein Gwasanaeth Adolygu Iechyd Meddwl wedi cynnwys y canlynol:

- [Ymweliadau â chleifion sy'n ddarostyngedig i bwerau'r Ddeddf Iechyd Meddwl](#)
- [Darparu gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn \(SOAD\)](#)

Ein Hymweliadau yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Cynhaliodd ein hadolygwyr 85 o ymweliadau a oedd yn cynnwys 95 o wardiau mewn 51 o ysbytai'r GIG ac ysbytai ac unedau annibynnol. Yn ystod yr ymweliadau hyn, siaradwyd â chleifion ac aelodau staff, a chynhaliwyd adolygiad eang o ddogfennau cleifion er mwyn asesu i ba raddau yr oedd y rhai a oedd yn derbyn gofal a thriniaeth yng Nghymru (a oedd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983) yn:

²⁵ Elusen iechyd meddwl yw Cymdeithas y Cleifion sy'n eirioli dros gael gwell mynediad at wybodaeth gywir ac annibynnol i gleifion a'r cyhoedd; mynediad cyfartal at ofal iechyd o ansawdd uchel i gleifion; a'r hawl i gleifion gymryd rhan ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal iechyd.

²⁶ Mae gwybodaeth gyfredol am ein harchwiliadau ar hap ar ein gwefan www.hiw.org.uk

²⁷ Deddf Iechyd Meddwl 1983

²⁸ Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid 2009 yw'r fframwaith o drefniadau diogelu o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gyfer pobl y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid er eu lles eu hunain ar gyfer gofal neu driniaeth nad oes ganddynt y galluedd i gytuno iddynt eu hunain.

²⁹ Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Deddf Seneddol sy'n llywodraethu'r drefn o wneud penderfyniadau ar ran pobl nad oes ganddynt alluedd, pan eu bod yn colli eu galluedd ar ryw bwynt yn eu bywydau a phan fo'r cyflwr o analluedd wedi bod yn bresennol ers adeg eu geni.

- Cael eu trin yn gyfreithlon
- Cael eu trin ag urddas a pharch
- Cael gofal a thriniaeth a oedd yn briodol i'w hanghenion
- Cael eu galluogi i fyw bywyd mor foddhaus â phosibl.

Fel yn 2010-2011, canfuwyd yn gyffredinol fod y prosesau cyfreithiol cywir wedi eu dilyn wrth gadw cleifion yn gaeth. Fodd bynnag, canfuwyd hefyd lawer o'r un pryderon a nodwyd gennym yng ngwaith y flwyddyn flaenorol o ran cymhwysiad cyson o'r Ddeddf, a'r ddarpariaeth gyffredinol o ofal a thriniaeth. Yn arbennig, parhawyd i amlygu problemau ynglŷn ag asesu galluedd cleifion i gytuno i gael triniaeth; yr angen am well cyfathrebu rhwng meddygon teulu a thimau iechyd meddwl cymunedol; tueddiad mewn rhai meysydd i ddefnyddio dull 'ticio'r blychau' ar gyfer hysbysu cleifion am eu hawliau; ac mewn rhai achosion, diffyg gweithgareddau therapiwtig ysgogol a phriodol, gan gynnwys mynediad at therapïau seicolegol. Nodwyd hefyd ddiffyg eglurder ynglŷn â statws neu hawliau cleifion gwirfoddol, yn enwedig o ran 'absenoldeb' neu benderfyniadau i beidio â 'chaniatáu' absenoldeb (pa un ai gyda thywysydd neu beidio).

Nodwyd bod anawsterau'n codi weithiau pan fo plant a phobl ifanc angen defnyddio gwasanaethau priodol gyda'r nos neu ar benwythnosau, oherwydd argyfwng.

Oherwydd ymdrechion i gynorthwyo cleifion yn y gymuned pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, yn gynyddol dim ond pan eu bod yn dioddef salwch aciwt y'u derbynir i'r ysbyty. Mae hyn wedi arwain at gymysgedd fwy ymfflamychol o gleifion a mwy o bwysau ar staff. Canfuwyd nad oedd staffio wedi ei adolygu bob amser i roi ystyriaeth i'r newid hwn o ran proffil cleifion.

Yn flaenorol, gwelwyd bod lefelau'r defnydd o welyau mewn ysbytai wedi gostwng yn sgil datblygu gwasanaethau cymorth dwys yn y gymuned. Fodd bynnag, nodwyd tuedd o gynnydd yn lefelau'r defnydd o welyau yn ystod 2010-2011. Roedd yn ymddangos fod hyn yn deillio'n bennaf o'r ffaith fod wardiau/unedau'n cael eu cau dros dro neu yn barhaol. Er mwyn rheoli'r sefyllfa, roedd cleifion yn aml yn "cysgu allan" ar wardiau eraill neu'n cael eu hanfon am gyfnod o absenoldeb. Mewn rhai ardaloedd, roedd diffyg gwelyau wedi arwain at y ffaith fod cleifion yn derbyn gofal ar wardiau nad oeddent yn briodol i'w hoedran nac i ddifrifoldeb eu cyflwr, gan osod mwy o bwysau ar staff ac achosi aflonyddwch i gleifion eraill.

Rydym yn parhau i fonitro'r materion hyn, ac rydym yn paratoi adroddiad blynyddol bob blwyddyn sy'n rhoi cyfrif o'r gwaith a wnaed gennym ar gyfer bodloni ein cyfrifoldebau monitro o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl. Bydd ein hadroddiad ar gyfer 2010-2011 yn cael ei gyhoeddi'n gynnar yn 2012, a bydd yn cynnwys manylion llawn am ein canfyddiadau.

Y Gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i roi Ail Farn

Mae'r gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i roi Ail Farn (SOAD) yn penodi meddygon annibynnol i roi ail farn fel dull diogelu ar gyfer cleifion sydd naill ai'n gwrthod rhoi eu caniatâd i gael triniaethau penodol neu nad oes ganddynt y galluedd i roi caniatâd o'r fath. Nid rhoi ail farn glinigol yn yr ystyr feddygol gonfensiynol yw swyddogaeth y SOAD, ond penderfynu pa un a yw'r driniaeth a argymhellir yn glinigol amddiffynadwy, a pha un a roddwyd ystyriaeth ddyledus i farn a hawliau'r claf.

AGIC sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth SOAD yng Nghymru. O ystyried y swyddogaeth bwysig a gyflawnir gan y SOAD o ran sicrhau bod y driniaeth a ragnodir ar gyfer unigolion (a gedwir

yn gaeth dan y Ddeddf) yn foesebol, a'i bod yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol ac arfer gorau, rydym wedi gosod amserlenni tynn iawn ar gyfer yr ymweliadau. Ar ôl derbyn cais SOAD, ein nod yw sicrhau y cynhelir ymweliad o fewn:

- Dau ddiwrnod gwaith ar gyfer cais am Therapi Electrogynghyrfol³⁰
- Pum diwrnod gwaith ar gyfer cais am feddyginiaeth cleifion mewnol, a
- 10 diwrnod gwaith ar gyfer cais am Orchymyn Triniaeth Gymunedol³¹

Adolygwyd 901 o geisiadau gennym am SOADau yn ystod y flwyddyn. O'r rhain, roedd 823 yn geisiadau oherwydd rhesymau meddyginiaeth yn unig, roedd 61 ar gyfer Therapi Electrogynghyrfol, ac roedd 17 ar gyfer y ddau. Cawsom nifer o broblemau wrth geisio bodloni'r amserlenni a nodwyd, yn enwedig mewn ardaloedd penodol yng Nghymru ac yn ystod misoedd penodol. O ganlyniad, recriwtiwyd nifer o SOADau ychwanegol gennym, yn enwedig ar gyfer gwasanaethu'r ardaloedd hynny o Gymru, sef y gorllewin a'r gogledd, lle yr ydym wedi cael trafferth o'r blaen i ddod o hyd i SOADau. Mae hyn wedi arwain at ostyngiadau sylweddol yn yr amser a gymerwyd rhwng derbyn cais a chynnal ymweliad, ond rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Roedd cyflwyno'r ddeddfwriaeth Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2009 yn rhoi dyletswydd ar lywodraethau i fonitro'r modd o'u cyflwyno a'u gweithredu. Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru oedd â'r dyletswydd am hyn, a dirprwywyd y cyfrifoldeb i AGGCC ar gyfer gofal cymdeithasol ac i AGIC ar gyfer gwasanaethau iechyd.

Mae AGGCC ac AGIC wedi cydweithio i ddatblygu dull ar y cyd o fonitro'r modd y gweithredir y Trefniadau Diogelu ac i gasglu a dadansoddi'r data perthnasol, ac ym mis Mawrth 2011 cyhoeddwyd y cyntaf o'n Hadroddiadau Blynnyddol³² gan nodi canfyddiadau ein gweithgarwch monitro yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Gan ddatblygu ein dull o weithio ar y cyd, byddwn yn cyhoeddi cydadroddiad gydag AGGCC yn gynnar yn ystod 2012 a fydd yn nodi canlyniadau ein gweithgarwch monitro ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod 2010-2011.

Mae canlyniadau ein gwaith monitro yn dangos bod y darlun ym mhob rhan o'r gwasanaethau iechyd yn debyg i'r sefyllfa yn 2009-10, ac rydym yn parhau i weld darlun amrywiol ar draws Cymru o ran defnyddio'r Trefniadau Diogelu.

Rydym yn parhau i fonitro'r defnydd a wneir o'r Trefniadau Diogelu fel mater o drefn a defnyddir y wybodaeth a gesglir gennym i gyfrannu at ddatblygu ein dulliau ymhellach yn ystod y blynnyddoedd i ddod.

Gweithredu ar sail canfyddiadau ein hadolygiad o'r trefniadau a sefydlwyd ar draws y GIG yng Nghymru ar gyfer 'Diogelu ac Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed'

Yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad 'Diogelu ac Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed' ym mis Mawrth 2010, ysgrifennwyd at yr holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ynglŷn â'r camau yr oeddynt yn eu cymryd i weithredu'r argymhellion a wnaed ynddo.

Adolygwyd y wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer mewn cynlluniau gweithredu unigol, a daethom i'r casgliad fod rhai bylchau yn parhau

³⁰ Math o driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddwl pan berir trawiad trwy yrru trydan trwy ymennydd claf sydd wedi cael anesthesia; fe'i defnyddir yn gyffredinol fel triniaeth ar gyfer iselder difrifol.

³¹ Awdurdodiad ysgrifenedig ar ffurflen ragnodedig ar gyfer rhyddhau claf o gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty, i gael triniaeth yn y gymuned dan oruchwyliaeth.

³² Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, Adroddiad Monitro Blynnyddol ar gyfer Iechyd 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2011 ac mae ar gael yn www.hiw.org.uk

i fodoli, er bod polisiâu trefniadaethol yn cael eu trosi i systemau a gweithdrefnau a oedd yn darparu arfer da i ddiogelu ac amddiffyn cleifion a allai fod mewn sefyllfa a fyddai'n eu gwneud yn agored i niwed. Ym mhob achos, roedd angen cryfhau cynlluniau gweithredu ymhellach, ac mae'n amlwg bod angen mwy o waith yn y maes hwn.

Rydym yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn trwy ein rhaglenni gwaith rheolaidd a'r adolygiadau mewn meysydd o ddiddordeb arbennig.

Adolygiadau o Laddiadau pan oedd y Sawl a gyflawnodd y weithred yn Ddefnyddiwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl

Mewn amgylchiadau pan fo claf sy'n wybyddus i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn gysylltiedig â lladdiad, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad allanol annibynnol o'r achos er mwyn sicrhau bod unrhyw wersi y gellid eu dysgu yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt. AGIC sydd wedi cynnal pob adolygiad o'r fath ers mis Ionawr 2007.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd ein canfyddiadau ynglŷn â thri gwahanol adolygiad³³.

Roedd y canfyddiadau hyn yn adlewyrchu llawer o'r materion a'r themâu cyffredin a nodwyd mewn adolygiadau blaenorol. Yn arbennig, mae'r 'Dull Rhaglen Ofal'³⁴ yn parhau i gael ei weithredu'n anghyson ar draws Cymru; mae angen gwell cyfathrebu a gwell dull o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau statudol; mae angen datblygu ymhellach y gwasanaethau

penodedig a ddarperir gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol³⁵, Timau Datrys Argyfwng/Triniaeth yn y Cartref³⁶ a Thimau Allgymorth Pendant³⁷ ac weithiau mae'r trefniadau ôl-gymorth yn anghyson.

Yn gyffredinol, mae angen arweinyddiaeth gref i sicrhau bod y trefniadau sydd wedi eu sefydlu i gefnogi gwaith tîm amlddisgyblaethol/amlasiantaethol gwirioneddol, a darparu staffio priodol, yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r argymhellion o'n hadroddiadau unigol wedi cyfrannu at ddatblygu adroddiad cyffredinol a fydd yn rhoi mwy o fanylion am y themâu a'r pryderon cyffredin a nodir yma. Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn gynnar yn ystod 2012.

Yn ystod 2011-2012, byddwn hefyd yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd asesu risg ym maes iechyd meddwl trwy ddadansoddi penodol a gwerthuso'r wybodaeth a geir trwy ein gwaith rheolaidd.

Marwolaethau yn y Ddalfa mewn Carchardai yng Nghymru

Yn ystod y flwyddyn, darparwyd cyngor clinigol gennym i'r Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn rhan o 14 ymchwiliad i farwolaethau mewn carchardai yng Nghymru, sef cynnydd o'r 10 a welwyd yn ystod 2009-10 a'r 6 yn ystod 2008-9.

Nodwyd nifer o faterion cyffredin gennym, a gododd o'n gwaith yn ystod 2010-11. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynglŷn â:

³³ Mae pob un o'r 3 adroddiad ar gael i'r cyhoedd gan ddefnyddio'r manylion sydd ar y tu mewn i glawr yr adroddiad hwn neu yn www.hiw.org.uk

³⁴ Mae'r Dull Rhaglen Ofal yn disgrifio'r dull a ddefnyddir ym maes gofal iechyd meddwl ar gyfer asesu, cynllunio, adolygu a chydgyssylltu'r amrywiaeth o anghenion triniaeth, gofal a chymorth i unigolion

³⁵ Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Dylai fod gan y tîm weithwyr o wahanol broffesiynau, sy'n deall gwahanol sgiliau ei gilydd a'r gwahanol ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwella o'u problemau iechyd meddwl heb fynd i'r ysbyty, ac felly, gelwir y tîm yn dîm iechyd meddwl cymunedol fel arfer

³⁶ Mae'r Timau Datrys Argyfwng / Triniaeth yn y Cartref yn darparu cymorth dwys yn eu cartrefi ar gyfer unigolion sy'n profi argyfwng iechyd meddwl aciwt. Eu nod yw lleihau nifer derbyniadau i'r ysbyty a hyd yr arosiadau, yn ogystal â lleihau'r pwysau ar unedau cleifion mewnol

³⁷ Mae Timau Allgymorth Pendant, a adwaenir hefyd fel 'timau triniaeth gymunedol rymusol', yn darparu cymorth dwys i'r bobl hynny sydd â salwch meddwl difrifol ac sy'n 'anodd ymgysylltu â hwy' mewn gwasanaethau mwy traddodiadol

- Sgrinio carcharorion yn annigonol wrth iddynt gyrraedd a diffyg sgrinio pellach
- Trefniadau ar gyfer 'trosglwyddo'; pan fo carcharorion yn symud rhwng carchardai
- Trefniadau cynllunio gofal, monitro a chadw cofnodion gwael ynglŷn ag iechyd y carcharorion
- Diffyg gwybodaeth ddigonol i garcharorion ynglŷn â materion iechyd
- Diffyg celloedd hygyrch a therapi galwedigaethol ar gyfer carcharorion anabl
- Diffyg gwaith dilynol ynglŷn â materion, e.e., diddymu canlyniadau profion

Rydym yn parhau i rannu'r wybodaeth hon gyda chyrrff perthnasol gyda'r bwriad o godi safonau gofal iechyd mewn carchardai.

Cyhoeddir adroddiadau ar adolygiadau i farwolaethau mewn carchardai gan yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf a gellir eu gweld yn www.ppo.gov.uk. Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sy'n gwneud gwaith dilynol ynglŷn ag unrhyw argymhellion y mae'n ofynnol i wasanaeth gofal iechyd y carchar eu gweithredu.

Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru

Mae camddefnyddio sylweddau yn cyfeirio at y defnydd niweidiol neu beryglus o sylweddau seicoweithredol, gan gynnwys alcohol a chyffuriau anghyfreithlon. Mae'n cynnwys hefyd y defnydd o feddyginiaeth ragnodedig, paratodau dros y cownter a chynnyrch cartref megis tanwydd tanwyr ac aerosolau eraill. Yn wreiddiol, fe'n comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2009/10 i wneud y gwaith hwn, ac rydym wedi parhau yn ystod y flwyddyn hon i asesu digonolrwydd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru.

Cynhaliwyd chwe chynhadledd amlasiantaethol ranbarthol gennym er mwyn ystyried sut y cynllunnir ac y darperir y gwasanaethau ar draws Cymru ar hyn o bryd. Mynychodd dros 150 o bobl y cynadleddau gan gynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru, Byrddau Lleol Diogelu Plant, yr Heddlu, Darparwyr Gwasanaeth, Comisiynwyr, Gwasanaethau Prawf, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Bydwreigiaeth, Timau Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, Gwasanaethau Troseddau Ieuencid, Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd, Cam-drin Domestig ac asiantaethau eraill.

Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau o'r adolygiad hwn yn ystod 2012.

Adolygiad ar y Cyd o Wasanaethau Troseddau Ieuencid

Yn ystod y flwyddyn, adroddwyd ar ein hadolygiad ar y cyd o'r Gwasanaethau Troseddau Ieuencid³⁸ gydag arolygwyr o AGGCC ac Estyn. Roedd yr adolygiad yn ceisio nodi pa mor dda y mae gwasanaethau addysg, iechyd a phlant yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Troseddau Ieuencid yng Nghymru i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid. Cynhaliwyd yr adolygiad ochr yn ochr ag Adolygiad Achos Craidd y rhaglen Troseddau Ieuencid yng Nghymru a arweiniwyd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Ar y cyfan, daeth arolygwyr o'r holl sefydliadau i'r casgliad bod Gwasanaethau Troseddau Ieuencid wedi gwneud cynnydd da ers iddynt dderbyn arolygiad ddiwethaf. Mae systemau arweinyddiaeth a rheolaeth wedi gwella, ac mae'r gwasanaethau addysg, iechyd a phlant yn cydweithio'n well i ddarparu gwell gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd y gwelliant hwn yn anghyson ac roedd angen gwneud mwy o waith ar draws y gwasanaethau.

³⁸ Adolygiad ar y Cyd o Wasanaethau Troseddau Ieuencid. Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011. Ar gael trwy ddefnyddio'r manylion sydd ar y tu mewn i glawr yr adroddiad hwn neu yn www.hiw.org.uk

Arolygiad ar y Cyd o Gamddefnyddio Alcohol ymysg Pobl Ifanc a Throseddau

Mae cysylltiad gwybyddus rhwng camddefnyddio alcohol a phroblemau iechyd, tangyflawni yn yr ysgol ac ymddygiad troseddol. Yn ystod y flwyddyn, adroddwyd gennym ar ganlyniadau ein harolygiad ar y cyd gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Estyn i benderfynu a oedd gwasanaethau troseddau ieuencid a gwasanaethau iechyd yn ymwneud ac yn ymgysylltu'n ddigonol ag ymdrechion i leihau effaith camddefnyddio alcohol gan blant a phobl ifanc sy'n troseddau³⁹.

Canfuom fod Timau Troseddau Ieuencid yn cynnig adnoddau iechyd sylweddol ac effeithiol pan welir bod camddefnyddio alcohol yn uniongyrchol berthnasol i'r troseddau. Fodd bynnag, canfuom hefyd fod gormod o anghysondebau o ran ansawdd yr asesiadau ar draws Cymru a Lloegr, gan awgrymu nad yw plant a phobl ifanc sy'n camddefnyddio alcohol yn derbyn cymorth priodol ar adegau.

Arolygiad ar y Cyd o Atal Troseddau Ieuencid

Roedd yr arolygiad thematig hwn⁴⁰ yn un o sawl un a oedd, gyda'r Arolygiadau Achos Craidd, yn ffurfio 'Rhaglen Arolygu Troseddau Ieuencid' dros dair blynedd a gydgyssylltir gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gydag Arolygiaeth Cwnstablfaeth Ei Mawrhydi yn arwain, roedd y tîm adolygu'n cynnwys arolygwyr o Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac AGIC.

Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gwaith partneriaeth rhagorol yn cael ei wneud a bod ethos strategol cyffredin yn bodoli o ran troseddau ieuencid. Fodd bynnag, ni ddylid

bychanu'r heriau; roedd yn amlwg iawn bod llawer o blant a nodwyd fel bod yn fwy tebygol o droseddau nag eraill, yn destun 'ffactorau risg' niferus a bod eu bywydau yn y dyfodol yn debygol o gael eu heffeithio'n andwyol.

“Heneiddio fel y mynnaf” Adolygiad o effaith y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i gomisiynu adolygiad sylfaenol o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar ôl dwy flynedd i asesu'r cynnydd a wnaed er mwyn cyfrannu at ei gyfeiriad a'i ddatblygiad ar gyfer y dyfodol. Nod ein hadolygiad ar y cyd oedd ateb un cwestiwn sylfaenol a syml: **Pa effaith y mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn ei chael ar ansawdd bywyd pobl hŷn yng Nghymru?**

Gweithiwyd gydag AGGCC dros gyfnod o ddwy flynedd i gasglu, asesu a gwerthuso'r wybodaeth a oedd ar gael, ar gyfer yr adolygiad hwn. Dechreuodd y gwaith yn 2009-10 a pharhaodd drwy gydol 2010-11. Cynhyrchwyd adroddiad rhagarweiniol gennym i gyfrannu yn ystod 2010 at ail gam y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn.

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol **Heneiddio fel y mynnaf**⁴¹ ym mis Rhagfyr 2011 a daethpwyd i'r casgliad bod y Fframwaith wedi cael effaith gadarnhaol yng Nghymru. Ynghyd â'r strategaethau cysylltiedig a swyddogaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn, mae wedi codi proffil y gwasanaethau a dderbynnir gan bobl hŷn yng Nghymru ac amlygu'r ffaith fod angen eu trin fel unigolion a pheidio â gwahaniaethu yn eu herbyn.

³⁹ Arolygiad ar y Cyd o Gamddefnyddio Alcohol a Throseddau gan Ieuencid. Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010 www.hiw.org.uk

⁴⁰ Cyd-Arolygiad o Waith Atal Troseddau gan Bobl Ifanc. Cyhoeddwyd ym mis Medi 2010. Ar gael yn www.hiw.org.uk

⁴¹ Heneiddio fel y mynnaf, Adolygiad o Effaith y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012.

Roedd ein hadolygiad yn amlygu bod nifer o enghreifftiau arloesol a gwerthfawr o wasanaethau a dulliau o gefnogi pobl hŷn wedi eu sefydlu ar draws Cymru. Dywedwyd wrthym bod y cynlluniau a'r gwasanaethau canlynol yn gweithio'n dda:

- Dosbarthiadau ymarfer corff a gweithgareddau
- Clybiau cinio
- Gwasanaethau siopa a dosbarthu ar y rhyngwyd
- Hysbysebion teledu megis yr hysbyseb FAST ynglŷn ag arwyddion strôc

Fodd bynnag, canfuom hefyd:

- Fod angen i ymarferwyr gofal sylfaenol, a meddygon teulu yn arbennig, ymrwymo'n well i ddull o ddarparu gofal a chymorth mewn tîm, gan fod eu swyddogaeth yn hollbwysig er mwyn sicrhau y darperir asesiadau priodol ac amserol
- Bod pobl hŷn a chanddynt anghenion cymhleth yn aml yn cael eu hanfon i'r ysbyty ond, mewn gwirionedd, dyna'r lle olaf y dylent fod ynddo
- Pan fo pobl hŷn yn cael eu derbyn i'r ysbyty, maent yno yn rhy hir ac o ganlyniad, effeithir ar eu hannibyniaeth a'u hyder

Roedd llawer o'r pryderon a ganfuwyd gennym yn ymwneud ag agweddau sylfaenol ar ofal, urddas a pharch sy'n hanfodol i unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol.

Daethom i'r casgliad felly bod y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn annhebygol o gael ei weithredu'n llawn a'r buddion dilynol yn annhebygol o gael eu gwireddu am amser maith, a bod gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lawer i'w wneud eto o ran newid

pwyslais eu dulliau a'u hagenda tuag at atal salwch a grymuso pobl. Yr hyn sydd ei angen yw cydweithio gwell rhwng gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol, a sefydliadau trydydd sector er mwyn cyflawni'r newidiadau, yn hytrach nag ysgrifennu mwy o bolisiau, strategaethau a Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol.

Bydd ein rhaglen o ymweliadau dirybudd gyda'r pwyslais ar 'Urddas a Gofal Hanfodol' yn ein galluogi i fonitro'n barhaus i ba raddau y mae'r gwasanaethau iechyd yn ymdrin â'r agenda hon ar draws Cymru.

Rydym wedi parhau i sbarduno gwelliant yn yr amgylchedd gofal

Yn ystod y flwyddyn, parhawyd â'r gwaith o gyflwyno ein rhaglen o ymweliadau dirybudd â lleoliadau gofal iechyd gyda'r pwyslais ar lanweithdra a rheoli heintiau. Ymwelwyd â phob bwrdd iechyd ac un ysbyty annibynnol, gan gynnwys 22 o wardiau ac amrywiaeth eang o wasanaethau⁴².

Ar y rhan fwyaf o'r wardiau yr ymwelwyd â hwy, canfuom safon dderbyniol neu dda o lanweithdra. Gwelwyd elfennau o arfer a oedd yn haeddu eu canmol mewn llawer o'r wardiau, yn enwedig:

- Hybu dulliau da o reoli ac atal heintiau, a'r wardiau yn arddangos canlyniadau'r archwiliadau hylendid dwylo ac yn darparu gwybodaeth dda am reoli heintiau ar gyfer cleifion, ymwelwyr a staff
- Tystiolaeth eglur o archwiliadau 'ataliol' yn cael eu cynnal yn rheolaidd, e.e., ynglŷn â legionella, neu'r angen i newid llenni

⁴² Mae adroddiadau ar bob ymweliad ar gael trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y tu mewn i glawr yr adroddiad hwn, neu drwy ymweld â'n gwefan www.hiw.org.uk.

Fodd bynnag, nodwyd hefyd nifer o themâu cyffredin, yn enwedig:

- Nid oedd comodau bob amser yn cael eu glanhau i safon dderbyniol
- Mae lle i gadw deunyddiau yn broblem barhaus, ac roedd nifer o'r wardiau naill ai â diffyg lle digonol i gadw deunyddiau neu heb fod yn defnyddio'r lle a oedd ganddynt yn effeithiol
- Roedd biniau gwastraff clinigol weithiau heb eu cloi mewn mannau yr oedd y cleifion a'r cyhoedd yn gallu mynd iddynt

Roedd ein rhaglen yn cynnwys nifer o ymweliadau dilynol â wardiau lle'r oeddem wedi nodi materion a oedd wedi peri pryder yn flaenorol, a chanfuom wrth ddychwelyd bod nifer o'r materion a nodwyd wedi derbyn sylw a bod y staff wedi gweithio'n galed er mwyn cyflawni hyn.

Cael triniaeth gan staff a chanddynt gymwysterau priodol ac sydd wedi eu hyfforddi'n briodol

Goruchwyliaeth Statudol Bydwagedd yng Nghymru

Ar ran Gweinidogion Cymru a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ni, sef yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ar gyfer Cymru, sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth cyffredinol yr holl fydwragedd sy'n ymarfer yng Nghymru. Mae'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn cefnogi bydwagedd trwy fodel o oruchwyliaeth sydd â'r nod o ddiogelu'r cyhoedd trwy gynorthwyo bydwagedd yn rhagweithiol i ddarparu safon uchel o ofal bydwreigiaeth gan roi dewis gwybodus i fenywod.

Mae'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn goruchwyllo bydwagedd sy'n ymarfer ar draws y saith bwrdd iechyd sy'n darparu gwasanaethau mamolaeth y GIG, yn ogystal â nifer fechan o fydwragedd hunangyflogedig sy'n darparu

gwasanaethau bydwreigiaeth annibynnol yng Nghymru. Mae byrddau iechyd yn cynnig amrywiaeth o wahanol fathau o wasanaethau, yn amrywio o unedau obstetreg aciwt i ganolfannau geni, ond ceir pwyslais ym mhob un ohonynt ar ofal a arweinir gan fydwragedd a mentrau sy'n hyrwyddo genedigaeth mor normal â phosibl, gyda chyn lleied â phosibl o ymyrraeth feddygol.

Ar 31 Mawrth 2010, roedd 1678 o fydwragedd wedi ein hysbysu eu bod yn bwriadu ymarfer bydwreigiaeth yng Nghymru yn y flwyddyn i ddod, ac roedd 149 o Oruchwylwyr Bydwagedd yng Nghymru.

Ar sail Cymru gyfan roedd yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn bodloni safon y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o gael un Goruchwylwr Bydwagedd ar gyfer uchafswm o 15 o fydwragedd; y gymhareb wirioneddol ar 31 Mawrth 2010 oedd 1:11. Heblaw am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, roedd yr holl ddarparwyr gwasanaethau mamolaeth yn rhagori ar safon y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, sef 1:15, ac roedd pump o'r saith bwrdd iechyd yn gweithio i gymhareb o 1:12 neu is. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol wedi gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ostwng y gymhareb ac i gefnogi'r Goruchwylwyr Bydwagedd hynny sy'n gyfrifol am fwy o achosion.

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG lunio adroddiad blynyddol ar gyfer yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol i nodi sut y maent wedi bodloni'r gofynion a osodir yn flynyddol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae hyn yn cynnwys nodi meysydd o arfer da pan fo Goruchwylwyr Bydwagedd wedi cael dylanwad ar newidiadau yn y gwasanaeth yn ogystal â meysydd heriol a sut y rheolir hyn yn lleol. Defnyddiwyd yr adroddiadau lleol a gyflwynwyd gan sefydliadau'r GIG wrth i ni baratoi Adroddiad Blynyddol cyffredinol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol¹³ ar gyfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Tabl 3: Cymhareb o Oruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd ar gyfer pob darparwr gwasanaethau ar 31 Mawrth 2010

Bwrdd Iechyd	Nifer y bydwragedd	Nifer y goruchwylwyr	Cymhareb y goruchwylwyr i fydwragedd
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	290	26	1:11
Aneurin Bevan	290	26	1:11
Prifysgol Betsi Cadwaladr	372	24	1:15
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	270	23	1:11
Cwm Taf	225	23	1:9
Hywel Dda	176	22	1:8
Powys	41	5	1:5
CYFANSWM (Cymru gyfan)	1678	149	1:11

Roedd y gwaith adolygu a wnaed gan ein tîm Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn ystod 2010-11 yn cadarnhau y bodlonwyd y safonau ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd, a osodwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Gan fod Goruchwylwyr Bydwragedd yn aml yn fydwragedd sy'n ymarfer hefyd, maent yn brysur yn cyflawni eu swyddi yn ystod y dydd mewn wardiau ac yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae cymryd cyfrifoldeb ychwanegol Goruchwylwr Bydwragedd felly'n golygu ymrwymiad sylweddol. Roedd y gwaith a wnaed gan ein tîm Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn ystod y flwyddyn yn dangos bod rhwydwaith cryf o Oruchwylwyr Bydwragedd ym mhob darpariaeth gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru ac ymrwymiad cryf i ddull Cymru gyfan o weithio. Gwelwyd tystiolaeth o rwydweithio effeithiol a rhannu arfer da, a oedd yn arbennig o werthfawr i sicrhau y cynhelir safonau uchel mewn adegau pan fo arian yn brin.

Trwy gydol y flwyddyn, mae Goruchwylwyr Bydwragedd yng Nghymru wedi chwarae rhan bwysig mewn arwain nifer o fentrau sydd â'r nod o wella arfer bydwreigiaeth a gofal i fenywod. Mae darparwyr gwasanaethau mamolaeth unigol yn rhagweithiol o ran cymryd camau i nodi tueddiadau a gwneud newidiadau mewn arfer i wella gofal a chanlyniadau i fenywod a babanod a thrwy eu hadroddiadau sefydliadol lleol, maent wedi nodi arfer da mewn sawl maes.

Mae tîm yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn bwriadu gwella'r dull o rannu arfer da ymhellach trwy baratoi cylchlythyr rheolaidd a threfnu gweithdai rhanbarthol er mwyn i Oruchwylwyr Bydwragedd ar draws Cymru allu rhannu eu profiadau a'r hyn y maent wedi ei ddysgu gydag eraill. Yn ogystal, mae'r tîm yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau o sicrhau arfer goruchwyllo cryf trwy godi ymwybyddiaeth ar lefel y byrddau iechyd o ba mor werthfawr yw goruchwyliaeth statudol bydwragedd o ran rheoli risg, a chael

⁴³ Adroddiad Blyneddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | Ebrill 2010 - 31 Mawrth 2011. Cyhoeddwyd ym mis Awst 2011

y gefnogaeth angenrheidiol gan Gyfarwyddwyr Nyrsio ac aelodau'r Byrddau i sicrhau nad yw prinder adnoddau yn amharu ar effeithiolrwydd y gwaith goruchwyllo.

Mae tîm yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn paratoi ar gyfer adolygiad bob tair blynedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a gynhelir ym mis Mawrth 2012 a'r nod fydd dangos gwelliant ac arloesi parhaus.

Yn gyffredinol, nodwyd gostyngiad yn nifer y genedigaethau yn y cartref yn ystod 2010-11 (1348) o'i gymharu â 2009/10 (1547). Mae'r ystadegau⁴⁴ ar gyfer y flwyddyn hefyd yn dangos cynnydd bychan yn nifer y toriadau Cesaraidd yng Nghymru, sef 25% yn 2010/11 o'i gymharu â 24.8% yn 2009/10. Byddwn yn parhau i fonitro'r tueddiadau hyn, yn enwedig o ystyried y newidiadau yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol⁴⁵ ynglŷn â thoriadau Cesaraidd a allai olygu newid yn y ffigyrau hyn ar adeg pan fo Llywodraeth Cymru yn annog gofal a arweinir gan fydwraedd.

Mae'n rhan o'r drefn bod yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn cael ei hysbysu am ddigwyddiadau clinigol anffafriol o bwys er mwyn ystyried pa un a oedd arfer bydwreigiaeth is na'r safon ofynnol wedi cyfrannu at y digwyddiad. Mae gan bob darparwr gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru bolisiau wedi eu sefydlu i sicrhau yr adroddir am ddigwyddiadau clinigol difrifol, eu bod yn cael eu hadolygu, a bod camau unioni yn cael eu cymryd fel bo'r angen. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd tîm yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol hysbysiadau am 71 o ddigwyddiadau clinigol, cynnydd o'r 57 a welwyd yn 2009-10. Adolygodd y tîm wybodaeth hefyd ynglŷn â deg o farwolaethau ymhlith mamau, cynnydd unwaith eto o'r pump a welwyd yn ystod 2009-10. Daethpwyd i'r casgliad ym mhob achos

(yr oedd pob digwyddiad mewn bwrdd iechyd gwahanol), nad oedd gofal bydwreigiaeth gwael yn ffactor.

Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

Ers 1 Rhagfyr 2009, mae AGIC wedi bod yn gyfrifol am fonitro Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (IR(ME)R) 2000 (a'r diwygiadau dilynol) trwy raglen o asesu ac archwilio adrannau clinigol sy'n defnyddio ymbelydredd Ïoneiddio yn eu gwaith.

Bwriad y rheoliadau yw:

- Amddiffyn cleifion rhag gormod o ddatguddio nas bwriedir neu ddatguddio anghywir i ymbelydredd a sicrhau, ym mhob achos, bod y risg o'r datguddio yn cael ei hasesu yn erbyn y lles clinigol
- Sicrhau nad yw cleifion yn derbyn mwy o ddatguddio nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r lles a ddymunir o fewn terfynau technoleg gyfredol
- Amddiffyn gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil meddygol neu fiofeddygol, diagnostig neu therapiwtig a'r rhai hynny sy'n derbyn datguddio meddygol-gyfreithiol

O ystyried natur arbenigol y maes gwaith hwn, rydym yn gweithio gyda'r Asiantaeth Diogelu Iechyd⁴⁶ i sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael ar ein cyfer i gefnogi'r elfennau arolygu ac ymchwilio yn ein gwaith yn y maes hwn.

Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd yr hysbysiadau a dderbyniwyd gennym ynglŷn â 26 o ddigwyddiadau yn ymwneud â "datguddio llawer mwy nag a fwriadwyd" mewn chwe bwrdd iechyd, un Ymddiriedolaeth y GIG ac un ysbyty annibynnol. Achoswyd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau gan gamgymeriadau gweinyddol

⁴⁴ Ystadegau iechyd allweddol ar gael yn www.cymru.gov.uk/statistics

⁴⁵ Canllaw clinigol CG132 y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol, diweddarwyd ym mis Tachwedd 2011 www.nice.org.uk

a olygodd bod y claf anghywir wedi derbyn sgan CT neu belydr X, neu fod y driniaeth anghywir wedi ei chyflawni. Ystyriwyd pa un a gynhaliwyd ymchwiliad cywir i'r achosion hyn, a pha un a gymerwyd y camau unioni angenrheidiol gan y sefydliad. O ganlyniad i ddau o'n hadolygiadau o ddigwyddiadau, cynhaliwyd arolygiad o'r ysbyty. Mae canlyniadau ein harolygiadau unigol wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Ar y cyfan, ychydig iawn o bryderon di-oed oedd gennym yn dilyn ein hadolygiad o'r hysbysiadau a dderbyniwyd gennym. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud mwy o waith gyda darparwyr gofal iechyd i wella cysondeb adroddiadau am 'ddatguddio mwy nag a fwriadwyd'. Bydd hyn o gymorth i sicrhau bod gennym ddarlun cywir o ddigwyddiadau ar draws Cymru gyfan.

Asiantaethau Nyrsys

Yn ystod 2010/11, rhoddwyd contractau newydd i Gyflenwadau Iechyd Cymru i gyflenwi nyrsys asiantaeth, cynorthwyyr gofal iechyd ac ymarferwyr adrannau llawdriniaeth ar gyfer y GIG yng Nghymru. Rydym yn gweithio gydag AGGCC i ddatblygu dull o asesu'r gwaith a ddarperir yn y maes hwn, ac rydym yn bwriadu cyflwyno'r trefniadau newydd yn ystod 2012.

Cyffuriau a Reolir

Sefydlodd Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwyllo Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008 ofynion eglur ar gyfer ymdrin â chyffuriau a reolir yn ddiogel ac yn effeithiol. Yn ystod 2010/11, parhawyd i fonitro'r trefniadau hyn gan ddefnyddio dull ar y cyd ymhlith ystod o bartneriaid rheoleiddio ac asiantaethau cenedlaethol. Cyhoeddwyd rhestr o swyddogion atebol gennym hefyd⁴⁷.

Adolygiadau Arbennig


Mae'n bosibl y byddwn yn cynnal adolygiadau arbennig o wasanaethau neu sefydliadau gofal iechyd mewn ymateb i bryderon a allai godi o ddigwyddiad penodol neu gyfres o ddigwyddiadau. Mae graddau a natur unrhyw waith adolygu arbennig yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r digwyddiad, neu ba mor aml y digwyddodd.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ddechrau gweithio ar ddau adolygiad arbennig, un yn canolbwyntio ar y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf, a'r llall yn edrych ar y gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir mewn ysbyty yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae'r gwaith wedi parhau trwy gydol 2011 a byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ar ein canfyddiadau o'r adolygiadau hyn yn gynnar yn 2012.

⁴⁶ Swyddogaeth yr Asiantaeth Diogelu Iechyd yw darparu dull integredig o ddiogelu iechyd y cyhoedd yn y DU trwy ddarparu cymorth a chynghor i'r GIG, awdurdodau lleol, gwasanaethau brys, cyrff 'hyd braich' eraill, yr Adran Iechyd a'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd

⁴⁷ Mae copi o'r rhestr o swyddogion atebol ar gael trwy gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar y tu mewn i glawr yr adroddiad hwn neu yn www.hiwi.org.uk



Sbarduno gwelliant trwy ein gwaith

Gwneud Gwahaniaeth

Rydym wedi parhau i fabwysiadu amrywiaeth o ddulliau i ddylanwadu er gwell ar ofal iechyd yng Nghymru.

Adroddiadau ar ddarparwyr a gwasanaethau iechyd	Arwain a chyfrannu at weithdai a digwyddiadau hyfforddi	Hwyluso uwchgynadleddau gofal iechyd	Cyfrannu at gynadleddau ac arddangosfeydd
Adroddiadau o ymchwiliadau	Ein hadroddiad blynyddol	Adroddiadau ar feysydd o ddiddordeb arbennig	Cyfrannu at ymgynghoriadau
Cytundebau a phrotocolau ar gyfer cydweithio rhwng asiantaethau	Dulliau o arolygu, ymchwilio ac adolygu	Briffio Gweinidogion a Thystiolaeth i bwyllgorau	Cadw cofrestrï o ddarparwyr gofal iechyd



Annog newid trwy ein Cyhoeddiadau

Mae ein hadroddiadau a chyhoeddiadau eraill yn elfennau allweddol a ddefnyddir gennym i sbarduno gwelliant. Drwy sicrhau eu bod ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofawyr, eu teuluoedd a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, ein nod yw grymuso'r holl bobl hynny sy'n defnyddio neu sydd â diddordeb mewn gwasanaethau iechyd i ofyn i'w darparwyr gwasanaeth iechyd eu hunain am wybodaeth am eu gofal unigol ac am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau iechyd yn fwy cyffredinol yn eu hardaloedd a'u cymunedau lleol.

Drwy ddosbarthu ein hadroddiadau i bob darparwr gwasanaeth iechyd a phartneriaid darparu, ein nod yw eu hannog i ddefnyddio'r canfyddiadau i ystyried pa mor dda y maent yn gweithredu o ran y gwasanaethau y maent yn eu darparu ac i ddefnyddio'r canlyniadau i sbarduno gwelliant pellach.

Mae ein cyhoeddiadau ar gael yn ddwyieithog (yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg), yn rhad ac am ddim, ac mewn nifer o ieithoedd a fformatau eraill pe gofynnir amdanynt, megis ar ffurf glywedol neu Braille.

Gallwch weld rhestr lawn o'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennym yn ystod 2010-2011 yn [Atodiad B](#), neu ewch i'n gwefan i gael gweld yr adroddiadau llawn.

Gwaith dilynol ynglŷn â'n canfyddiadau

Nid yw cyhoeddi ein hadroddiadau yn golygu bod ein gwaith ar ben. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau lunio cynlluniau gweithredu ac rydym yn annog newid trwy weithio gyda sefydliadau i'w cynorthwyo i wella.

Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddogion o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y cynnydd a wneir o ran gweithredu ein hargymhellion yn cael ei fonitro a'i reoli trwy eu trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y GIG yng Nghymru. Byddwn ninnau, o bosibl, yn ailymweld â sefydliadau neu wasanaethau i sicrhau bod cynnydd priodol yn cael ei wneud.

Byddwn hefyd efallai'n penderfynu cynnal gwaith ac iddo bwyslais arbennig neu sy'n fwy manwl mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol, fel yr ydym wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ynglŷn â materion glanweithdra, urddas a pharch, a diogelu ac amddiffyn oedolion.

Dylanwadu ar bolisiau ac arferion gofal iechyd

Ar lefel Cymru gyfan, rydym wedi parhau i gyfrannu at ddatblygiad polisiau ac arferion gofal iechyd yng Nghymru trwy gynnal gweithgareddau amrywiol. Yn ogystal â chyhoeddi ein hadroddiadau yn ystod y flwyddyn, rydym wedi:

- Darparu cyngor annibynnol i Weinidogion Cymru trwy gyfarfodydd briffio amrywiol
- Darparu tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i bedwar pwyllgor yng Nghymru a phwyllgorau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Ymateb, rhwng mis Medi 2010 a mis Mawrth 2011, i 16 o ymgynghoriadau gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi, Colegau Brenhinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd
- Cyfrannu at ystod eang o gynadleddau, seminarau, arddangosfeydd a gweithgoreu ar draws Cymru, y DU a thu hwnt

Parhawyd hefyd i ddarparu cyngor a chymorth penodol trwy gydol y flwyddyn i gyfrannu at ddatblygu polisiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â gwasanaethau iechyd, a chyfrannwyd hefyd at ddatblygu safonau perthnasol a gofynion ansawdd. Yn arbennig:

- Cefnogwyd gwaith y Farwnes Findlay ar ran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu gofynion ansawdd ar gyfer gofal lliniarol trwy'r Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol. Mae'r Safonau Ansawdd ar gyfer Gofal Diwedd Oes⁴⁸ yn nodi'r lleiaf y dylai unrhyw un sy'n nesáu at ddiwedd ei oes fod yn gallu ei ddisgwyl gan wasanaeth, beth bynnag fo eu hoedran, a chan y rhai sy'n gofalu amdanynt
- Gwnaed gwaith gyda Grŵp Cydgysylltu Gwasanaethau Canser Cymru i ddatblygu rhaglen newydd o Adolygu gan Gymheiriaid er mwyn adolygu cydymffurfiaid â'r Safonau Canser. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol 2011-2012
- Dechreuwyd gweithio ar brosiect i gefnogi Grŵp Arbenigol Cymuned y Lluedd Arfog yng Nghymru trwy weithio gydag elusennau a sefydliadau gwasanaeth milwrol i gasglu straeon a phrofiadau personél y Lluedd Arfog, eu teuluoedd a chyn-filwyr ynglŷn â pha mor dda yw'r ddarpariaeth iechyd sydd ar gael; pa mor rhwydd yw cael gafael ar wasanaethau iechyd ac effeithiolrwydd blaenoriaethu wrth ddarparu triniaeth i gyn-filwyr; a phrofiadau cyffredinol wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol 2011-2012
- Gwnaed gwaith gyda rheoleiddwyr y Gwasanaeth Iechyd o bob rhan o'r DU ynglŷn â swyddogaeth rheoleiddwyr wrth gefnogi'r trefniadau newydd a sefydlwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer ailddilysu holl feddygon y DU. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol 2011-2012


⁴⁸ Mae mwy o wybodaeth ar gael ynglŷn â'r gwaith hwn yn www.wales.nhs.uk/palliativecare

Mwy o rym ar gyfer newid trwy Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd ymhellach y rhaglen flynyddol o uwchgynadleddau gofal iechyd, ac fe'u hwyluswyd gennym. Roedd pob un ohonynt wedi ei gynllunio i ganolbwyntio ar fwrdd iechyd penodol neu Ymddiriedolaeth benodol y GIG yng Nghymru. Roedd yr uwchgynadleddau'n cynnwys cyrff adolygu iechyd a gofal cymdeithasol ac asiantaethau gwella sy'n gweithio ar draws Cymru, ac yn darparu cyfle gwerthfawr i bawb ohonom allu rhannu'r wybodaeth sydd gennym am sefydliadau'r GIG er mwyn sefydlu asesiad cyffredinol, cydgysylltiedig sy'n sbarduno cynlluniau pob un ohonom.

Darparodd yr uwchgynadleddau fframwaith eglur er mwyn i ni lunio cynllun mwy integredig ar gyfer sicrwydd a gwella. Roeddynt yn ein galluogi i ganolbwyntio ar y meysydd allweddol o bryder neu'r heriau sy'n effeithio ar sefydliadau'r GIG yng Nghymru, gyda'r nod o dargedu a chydgysylltu ein rhaglenni gwaith ein hunain yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau ein bod yn cael cymaint o effaith â phosibl ar y broses o sbarduno gwelliant.

Mae nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan a lefel y cyfranogiad ym mhrosesau'r Uwchgynadleddau yn cael eu hehangu yn ystod 2011-2012. Am y tro cyntaf, byddwn hefyd yn trafod canlyniadau ein rhaglen uwchgynadleddau gydag arweinyddion y GIG.



Edrych i'r Dyfodol

Nod systemau integredig ymddiriedolaethau a byrddau iechyd yng Nghymru yw sefydlu partneriaethau sy'n bodloni anghenion iechyd pobl ar draws cymunedau, gan annog cydweithio yn hytrach na chystadlu wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r pwyslais gwahanol yn Lloegr a chynlluniau yn y dyfodol i ganiatáu i feddygon teulu reoli eu cyllidebau yn debygol o barhau i gael effaith, yn enwedig ar atgyfeiriadau trawsffiniol ar gyfer gwasanaethau iechyd arbenigol.

Mae'r Adran Iechyd yn bwriadu trosglwyddo swyddogaethau'r Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg a'r Awdurdod Meinweoedd Dynol erbyn diwedd cyfnod y Senedd gyfredol (2014/15). Mae'r Adran Iechyd ar hyn o bryd yn ystyried ymarferoldeb a goblygiadau cyfreithiol rhannu'r swyddogaethau rhwng rheoleiddiwr ymchwil newydd, y Comisiwn Ansawdd Gofal a'r Ganolfan Gwybodaeth am Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae AGIC yn awyddus iawn i barhau i gadw llygad ar y newidiadau hyn er mwyn i ni allu ystyried y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru yn ogystal ag ar gyfer ein gweithrediadau ein hunain.

O ran y sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, mae'r rheoliadau newydd a'r safonau cysylltiedig a gyflwynwyd yng Nghymru ym mis Ebrill 2011 yn pwysleisio ymhellach y gwahaniaethau yn y fframwaith rheoliadol ar gyfer gofal iechyd annibynnol ar draws y DU, gan greu heriau penodol i ddarparwyr sy'n gweithredu ar draws ffiniau.

Bydd newidiadau deddfwriaethol arfaethedig ychwanegol ar gyfer cofrestru deintyddion preifat yng Nghymru yn cael effaith sylweddol ar ein gwaith. Bydd y newid o gofrestru deintyddion unigol i gofrestru practisau deintyddol yn ein galluogi i ychwanegu mwy o werth trwy ein gweithgarwch arolygu.

Yn gynnar ym mis Tachwedd 2011, lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weledigaeth 5 mlynedd newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru: [Law yn Llaw at Iechyd](#). Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio ar wasanaethau cymunedol sy'n canolbwyntio ar y cleifion, ac mae'n gosod ansawdd, tryloywder ac atal salwch wrth wraidd gofal iechyd. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd a'r camau y mae angen



eu cymryd i sicrhau ei fod yn gallu darparu gwasanaethau sydd gyda'r gorau yn y byd.

Mae'r ddogfen hon yn un arwyddocaol i'r GIG yng Nghymru a byddwn yn sicrhau bod rhaglen waith AGIC yn ystod y blynyddoedd i ddod yn adlewyrchu ac yn ymateb i batrwm newidiol y ffordd y darperir gwasanaethau.

Ein gwaith yn ystod 2011-12 a thu hwnt

Ym mis Awst 2011, cyhoeddwyd ein [Rhaglen Waith Tair Blynedd ar gyfer 2011-14](#) sy'n amlinellu ein nodau i ymateb i'r meysydd allweddol sy'n achosi pryder i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys sefydliadau gwasanaeth iechyd) yn y cyfnod heriol hwn. Yn y ddogfen honno, rydym yn pwysleisio y bydd cwmplas ein gwaith a'r dulliau o'i gyflawni yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny sydd bwysicaf i ddinasyddion Cymru.

Un enghraifft o hyn oedd cyflwyno ein rhaglen o ymweliadau dirybudd â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r rhai hynny a allai fod mewn sefyllfaoedd a fyddai'n eu gwneud yn arbennig

o agored i niwed neu a allai fod mewn perygl arbennig. Mewn ymateb i bryder ymhlith y cyhoedd yn dilyn darlledu rhaglen Panorama'r BBC a ddatgelodd gamdriniaeth mewn ysbyty arbenigol yn y DU a oedd yn darparu gofal a gwasanaethau adsefydlu i oedolion ag anawsterau dysgu, dechreuasom gynnal ymweliadau dirybudd ym mis Gorffennaf 2011. Bydd y rhain yn parhau trwy gydol y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i newid pwyslais ein gwaith fel ein bod yn edrych ar y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol yn ogystal ag mewn ysbytai - yn unol â nodau Llywodraeth Cymru i roi pwyslais cryf ar atal salwch, hybu iechyd a darparu gofal sylfaenol a chymunedol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried sut y dylem ddatblygu ein dulliau arolygu ymhellach i adlewyrchu'r ddarpariaeth gofal iechyd ar draws pob lleoliad, gan gynnwys gofal iechyd a ddarperir 'yn y cartref'.

Byddwn yn sicrhau bod cynllun ac amseriad ein rhaglenni gwaith yn cyfateb, er mwyn i ni allu ystyried effaith ac effeithiolrwydd datblygiadau allweddol mewn polisi ac arferion gofal iechyd a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru,

e.e., y Cynllun Iechyd Gwledig⁴⁹, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru)⁵⁰ a Mesur y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr (Cymru)⁵¹, yn ogystal â themâu allweddol a blaenoriaethau a nodir yn y Fframwaith Ansawdd Blynyddol ar gyfer y GIG yng Nghymru.⁵²

Byddwn yn annog sefydliadau gofal iechyd i hunanasesu eu perfformiad yn fwy effeithiol a chryfhau eu trefniadau craffu mewnol ymhellach fel eu bod mewn gwell sefyllfa i allu 'gweithredu'n gywir y tro cyntaf, bob tro' neu i nodi ac ymateb yn gyflym ac effeithiol i faterion sy'n effeithio ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddefnyddio'r fframwaith a sefydlwyd gan [Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru](#).

Byddwn yn gwneud mwy i ymgysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'u cynnwys yn ein gwaith er mwyn meithrin amgylchedd o hunanwelliant parhaus o ran ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth gofal iechyd. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, megis cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn uniongyrchol wrth gynllunio a chyflwyno ein rhaglenni adolygu ein hunain fel y gellir eu defnyddio hefyd fel dulliau hunanasesu.

Byddwn yn cryfhau ein dulliau cydweithredol ymhellach, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y llwybr o 'nodi' problemau neu wendidau yn y modd y darperir gwasanaeth i gamau 'gwella', trwy ddatblygu cysylltiadau cryfach ag asiantaethau cymorth a gwella fel bod sefydliadau gofal iechyd yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt i wneud y newidiadau angenrheidiol.

Byddwn yn osgoi gorbwysleisio meysydd sy'n peri problemau. Pan fo eraill eisoes wedi nodi materion sy'n effeithio ar ansawdd a diogelwch gofal iechyd, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwaith hwnnw yn hytrach na'i ailadrodd. Gallai hyn olygu, er enghraifft, gynnal asesiad manylach o agwedd benodol neu wneud gwaith dilynol yn ddiweddarach i weld pa un a wnaed gwelliannau.

Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan am ein holl weithgareddau, gan gynnwys cylch gorchwyl adolygiadau unigol, yn ogystal â gwybodaeth gefndir a chanllawiau ar sut i gyfrannu eich safbwyntiau.

⁴⁹ Y Cynllun Iechyd Gwledig - mae Cynllun Iechyd Gwledig wedi ei ddatblygu i sicrhau bod anghenion iechyd y dyfodol mewn cymunedau gwledig yn cael eu bodloni yng Nghymru. Gellir ei weld yn <http://cymru.gov.uk/topics/health/nhswales/healthstrategy/ruralhealth>

⁵⁰ Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn gwneud nifer o newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol cyfredol o ran y dull o asesu a rhoi triniaeth i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

⁵¹ Mae Mesur y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr (Cymru) yn gosod dyletswydd ar y GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gydweithio er mwyn paratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar gyfer gofalwyr.

⁵² Y Fframwaith Ansawdd Blynyddol ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Atodiad A: Mapiau Gofal Iechyd

CYMRU



BYRDDAU IECHYD LLEOL

- A** Prifysgol Betsi Cadwaladr
- B** Hywel Dda
- C** Addysgu Powys
- D** Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- E** Cwm Taf
- F** Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- G** Aneurin Bevan

★ pwysig: Bydd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gyfrifol am y swyddogaethau a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu cyflawni a'u darparu gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Canolfan Iechyd Cymru, Uned Gwybodaeth ac Arolygiaeth Canser Cymru, y Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaledau Cynhenid a Gwasanaethau Sgrinio Cymru

CYMRU

Uned A&E Fawr

Uned A&E Fach

Uned Mân Anafiadau

* nid 24 awr

Ysbytau Eraill ①

Ffynhonnell : www.wales.nhs.uk/

- ① Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- ② Ymddiriedolaeth GIG Felindre

A BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr

- 1 Abergele
- 2 Ablett Unit
- 3 Bodnant EMI Unit
- 4 Bryn Beryl
- 5 Bryn Hesketh Unit
- 6 Bryn y Neuadd
- 7 Cefni
- 8 Chirk Community
- 9 Deeside Community
- 10 Denbigh Community
- 11 Dolgellau
- 12 Eryri
- 13 Ffestiniog Memorial
- 14 Glan Traeth
- 15 H.M. Stanley
- 16 Hafod Mental Health Resource Centre
- 17 Llangollen Community
- 18 Minffordd
- 19 Nant-y-Glyn Health Resource Centre
- 20 North Wales Adolescent Service
- 21 North Wales Cancer Treatment Centre
- 22 Prestatyn Community
- 23 Royal Alexandra

B BILI Hywel Dda

- 1 Dyffryn Aman
- 2 Bro Cerwyn/Sain Brynach
- 3 Clinig Brynmair
- 4 Bryntirion
- 5 Coffa Aberteifi a'r Cylch
- 6 Gorweilon
- 7 Llanymddyfri
- 8 Mynydd Mawr
- 9 De Sir Benfro
- 10 Dewi Sant
- 11 Swyn-y-Gwynt
- 12 Bwthyn Dinbych-y-pysgod
- 13 Tregaron

C BILI Addysgu Powys

- 1 Coffa Rhyfel Aberhonddu
- 2 Cymuned Bro Ddyfi
- 3 Bronllys
- 4 Llanfair-ym-Muallt
- 5 Trefcyl
- 6 Coffa Rhyfel Llandrindod
- 7 Coffa Rhyfel Llanidloes
- 8 Ysbyty Sirol Trefaldwyn
- 9 Coffa Victoria
- 10 Cymuned Ystradgynlais

D BILI Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

- 1 Cefn Coed
- 2 Cimla
- 3 Garngoch

- 4 Gellinudd
- 5 Glanrhyd
- 6 Gorseion
- 7 Groeswen
- 8 Hill House
- 9 Uned Llwyneryr
- 10 Cymuned Maesteg
- 11 Tonna

E BILI Cwm Taf

- 1 Cyffredinol Aberdâr
- 2 Dewi Sant
- 3 Cyffredinol Aberpennar
- 4 Pontypridd a'r Cylch
- 5 Cyffredinol Santes Tudful
- 6 Ysbyty Cwm Rhondda
- 7 Ysbyty George Thomas

F BILI Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- 1 Y Barri
- 2 Ysbyty Brenhinol Caerdydd
- 3 Ysbyty Plant Cymru
- 4 Ysbyty Athrofaol Llandochau
- 5 Rookwood
- 6 Dewi Sant
- 7 Deintyddol Athrofaol
- 8 Eglwys Newydd

G BILI Aneurin Bevan

- 1 Blaenafon
- 2 Cymuned Cas-gwent
- 3 Sirol
- 4 Llanfrehfa Grange
- 5 Maindiff Court
- 6 Cyfleuster Iechyd a Gofal
- 7 Cymdeithasol Dyffryn Mynyw
- 8 Coffa Redwood
- 9 Sain Cadog
- 10 Sain Gwynllyw
- 11 Uned Talygarn
- 12 Ysbyty'r Tri Chwm

© Hawlfraint y Goron 2011

Cartograffeg • Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ionawr 2012

YSBYTAI

Gofal Iechyd Annibynnol

MAP 1

Ysbyty Aciwt ●

- 1 Nucleus Healthcare Ltd.
- 2 Sancta Maria
- 3 Ysbyty Spire (Caerdydd)
- 4 Ysbyty Spire (lâl)
- 5 St Joseph's
- 6 Vale Clinic (Bae Caerdydd)
- 7 Vale Hospital (The)
- 8 Ysbyty Werndale

Hosbis i oedolion ●

- 9 Hosbis Marie Curie
- 10 Hosbis Tŷ'r Eos
- 11 Shalom House
- 12 St Anne's
- 13 Hosbis Dewi Sant
- 14 St Kentigern

Hosbis i blant ●

- 15 Tŷ Gobaith
- 16 Tŷ Hafan

Clinig Annibynnol ●

- 17 Albany Medical Centre (Casnewydd)
- 18 Albany Medical Centre (Pontypridd)
- 19 Cardiff Knee Clinic
- 20 Cyncoed Consulting Rooms
- 21 Independent General Practice (The)
- 22 National Slimming Centres (Caerdydd)
- 23 Oxford House Clinic
- 24 Swansea Slimming Centre
- 25 Canolfan Astudiaethau Podiatrig Cymru

Ysbyty nad yw'n Ysbyty Aciwt ●

- 26 Abergele Consulting Rooms
- 27 Newport Cardiac Centre
- 28 Open MRI of Cardiff



© Hawlfraint y Goron 2011
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/10/11.12


Gorffennaf 2011

Gofal Iechyd Annibynnol

MAP 2

Iechyd Meddwl/ Anabledd Dysgu

- 1 Aderyn
- 2 Caerlan House
- 3 Cefn Carnau Uchaf
- 4 Coed Du Hall
- 5 Delfryn House
- 6 Hafan Wen
- 7 Heatherwood Court Pontypridd
- 8 Llanarth Court
- 9 Llanbedr Court
- 10 New Hall
- 11 New House
- 12 Phoenix House
- 13 Pinetree Court
- 14 Plas Coch
- 15 Rushcliffe (Aberavon) Ltd
- 16 Ysbyty Annibynnol Dewi Sant
- 17 St Luke's (Glynebwy)
- 18 St Teilo House
- 19 Surehaven (Pembroke) Ltd
- 20 Tŷ Catrin
- 21 Tŷ Cwm Rhondda
- 22 Tŷ Gwyn Hall
- 23 Tyn y Coed




© Hawlfraint y Goron 2011
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/10/11.12

Mehefin 2011

Gofal Iechyd Annibynnol

MAP 3



© Hawlfraint y Goron 2011
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/10/11.12


Gorffennaf 2011

Gofal Iechyd Annibynnol

MAP 4

Defnyddio Golau Dwys neu Laser Dosbarth 3B neu 4 at ddibenion heblaw llawdriniaeth

- 1 1192 Laser & Beauty
- 2 Academy (The)
- 3 Allure
- 4 AMA Limited
- 5 B. Ten-Beauty Ltd
- 6 Bay Health & Beauty Clinic (The)
- 7 Beauty Advance Laser Therapy Ltd
- 8 Beauty Spot
- 9 Beauty Therapy & Electrolysis Clinic (The)
- 10 Beauty Therapy Suite Ltd
- 11 Beauty Within
- 12 Bliss Beauty by Cerys
- 13 Blue Lagoon
- 14 Body Image Beauty and Laser Clinic
- 15 Body Talk Beauty Salon
- 16 Cae Court Clinic
- 17 Cellite Clinic
- 18 Claire Price Beauty Clinic
- 19 Coollight Health & Beauty
- 20 Crystal Beauty
- 21 Defy Time Ltd
- 22 DestinationSkin Ltd
- 23 Energist Limited
- 24 Essence of Beauty
- 25 Face It Skin Aesthetics
- 26 Facial & Cosmetic Enhancement Clinic
- 27 Fitness Plus Ltd
- 28 Gavin Steele Tattoo Studio
- 29 Gresford Skin Care Clinic
- 30 Harley Medical Group Cardiff
- 31 Laserase (Wales) Ltd
- 32 New Image
- 33 Perfect Image
- 34 Prioxy (The)
- 35 Swansea Laser Clinic
- 36 Toned Within
- 37 Utopia Salons Ltd



Defnyddio Golau Dwys neu Laser Dosbarth 3B neu 4 at ddibenion heblaw llawdriniaeth

- 38 MDA Clinic Ltd
- 39 Optical Express
- 40 Ultralase

© Hawlfraint y Goron 2011
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/10/11.12

Gorffennaf 2011

Atodiad B: Rhestr o Gyhoeddiadau¹ yn deillio o weithgareddau 2010-2011

Categori	Teitl y Cyhoeddiad
Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap Ysbyty Treforys
Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap Ysbyty Brenhinol Gwent
Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap Ysbyty Gwynedd
Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap Ysbytai Athrofaol Cymru a Llandochoau
Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap	Bwrdd Iechyd Cwm Taf Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap Ysbyty Brenhinol Morgannwg
Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap	Bwrdd Iechyd Hywel Dda Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru
Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap Ysbyty Cymunedol Machynlleth
Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap	Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap Ysbyty Spire Caerdydd
Lladdiad	Adroddiad ar adolygiad ynglŷn â Mr G a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl a ddarparwyd, yn dilyn Lladdiad a gyflawnwyd ym mis Mai 2009
Lladdiad	Adroddiad ar adolygiad ynglŷn â Mr F a'r ddarpariaeth o Wasanaethau Iechyd Meddwl, yn dilyn Lladdiad a gyflawnwyd ym mis Rhagfyr 2008
Iechyd Meddwl	Amddiffyn pobl ag analluedd meddyliol - adolygiadau blynyddol cyntaf
Awdurdod Goruchwylio Lleol	Adroddiad Blynyddol 2009-2010
Awdurdod Goruchwylio Lleol	Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2010-2011
Adroddiad ar y Cyd	Adolygiad ar y cyd o Wasanaethau Troseddau Ieuencid
Adroddiad ar y Cyd	Cyd-adolygiad o Wait Atal Troseddu gan Bobl Ifanc
Adroddiad ar y Cyd	Neges Mewn Potel Arolygiad ar y Cyd o Gamddefnyddio Alcohol a Throseddu gan Ieuencid

¹ Mae'r holl adroddiadau ar gael drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt y tu fewn i glawr yr adroddiad hwn. Mae fersiwn ar-lein o'r rhestr hon hefyd ar gael gyda dolenni ar gyfer pob adroddiad www.hiw.org.uk

Categori	Teitl y Cyhoeddiad
Cydweithio	Datblygu Ein Gwaith Gyda'n Gilydd mewn Hinsawdd o Newid - Papur ar arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru a baratowyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru
Cydweithio	Cydweithio er mwyn Cefnogi Gwelliannau - Cytundeb Strategol rhwng Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru
Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) (IR(ME)R)	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: Arolygiad o gydymffurfiaid â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygiedig Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2006
Clinig Annibynnol	Oxford House Clinic
Clinig Annibynnol	Swansea Slimming Centre
Clinig Annibynnol	Albany Medical Centre, Casnewydd
Clinig Annibynnol	Albany Medical Centre, Pontypridd
Triniaeth Ocsigen Hyperbaric	Multiple Sclerosis Support Centre
Triniaeth Ocsigen Hyperbaric	South Wales Multiple Sclerosis Therapy Centre
Triniaeth Ocsigen Hyperbaric	Hope MS Therapy Centre
Ysbytai Deintyddol	Ysbyty Deintyddol Parkway
Ysbytai Acíwt	Ysbyty Iâl
Ysbytai Acíwt	Ysbyty Werndale
Ysbytai Acíwt	Ysbyty Sancta Maria
Ysbytai Acíwt	Abergele Consulting Rooms
Ysbytai Acíwt	Ysbyty Annibynnol St Joseph
Ysbytai Iechyd Meddwl	Ysbyty Annibynnol St Luke
Ysbytai Iechyd Meddwl	Ysbyty Annibynnol Llanarth Court
Ysbytai Iechyd Meddwl	Tŷ Gwyn Hall

Categori	Teitl y Cyhoeddiad
Ysbytai Iechyd Meddwl	Tŷ Catrin
Ysbytai Iechyd Meddwl	Heatherwood Court
Ysbytai Iechyd Meddwl	Coed Du Hall
Ysbytai Iechyd Meddwl	Delfryn House
Ysbytai Iechyd Meddwl	Plas Coch
Ysbytai Iechyd Meddwl	Ysbyty Annibynnol New Hall
Ysbytai Iechyd Meddwl	Tŷ Cwm Rhondda
Ysbytai Iechyd Meddwl	Llanbedr Court
Ysbytai Iechyd Meddwl	Hafan Wen
Ysbytai Iechyd Meddwl	Phoenix House
Ysbytai Iechyd Meddwl	Rushcliffe Independent Hospitals (Aberavon)
Ysbytai Iechyd Meddwl	Caerlan House
Ysbytai Iechyd Meddwl	Aderyn
Ysbytai Iechyd Meddwl	St Davids Hospital
Ysbytai Iechyd Meddwl	Cefn Carnau Uchaf
Laser/Golau Pwls Dwys	Toned Within
Laser/Golau Pwls Dwys	Defy Time
Laser/Golau Pwls Dwys	Allure Skin and Beauty
Laser/Golau Pwls Dwys	FACE Advanced Facial and Cosmetic Enhancement Clinic
Laser/Golau Pwls Dwys	The Bay Health and Beauty Clinic
Laser/Golau Pwls Dwys	Crystal Beauty
Laser/Golau Pwls Dwys	Utopia Salons Limited

Categori	Teitl y Cyhoeddiad
Laser/Golau Pwls Dwys	The Beauty Therapy and Electrolysis Clinic
Laser/Golau Pwls Dwys	Beauty Advance Laser Therapy
Laser/Golau Pwls Dwys	B.ten Beauty Limited
Laser/Golau Pwls Dwys	Beauty Within Medi Spa
Laser/Golau Pwls Dwys	Destination Skin
Laser/Golau Pwls Dwys	Gavin Steele Tattoo Studio
Laser/Golau Pwls Dwys	Laserase (Wales) Limited
Laser/Golau Pwls Dwys	The Priory
Laser/Golau Pwls Dwys	West Wales Aesthetics and Laser Clinic
Laser/Golau Pwls Dwys	Essence of Beauty
Laser/Golau Pwls Dwys	Body Talk Ltd
Laser/Golau Pwls Dwys	Beauty Therapy Suite
Laser/Golau Pwls Dwys	Perfect Image
Cylchlythyr	Cylchlythyr AGIC - Hydref 2010
Cylchlythyr	Cylchlythyr AGIC - Mehefin 2010
Cylchlythyr	Cylchlythyr AGIC - Ionawr 2011